











# Adolygiad Blynyddol

## 2025-2026

GIG CYMRU NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd** | **5** |
| **2. Cipolwg ar PCGC** | **7** |
| Ein Blwyddyn mewn Rhifau | 8 |
| Ein Gwasanaethau | 10 |
| Ein Map Strategaeth | 11 |
| **3. Yr Hyn yr Ydym yn Falch Ohono** | **13** |
| Llwyddiannau, Arloesedd ac Astudiaethau Achos | 14 |
| Uchafbwyntiau o 2025-26 | 15 |
| Ardystiadau a Sicrwydd Allanol | 16 |
| Gwobrau a Chydnabyddiaeth | 17 |
| Cydnabod Staff | 19 |
| **4. Pa Mor Llwyddianus Oeddem?** | **20** |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 21 |
| Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb | 26 |
| Llywodraethu ac Atebolrwydd | 33 |
| Trefniadau Ansawdd | 35 |
| Gwersi a Ddysgwyd a Heriau | 38 |
| Y Ddyletswydd Ansawdd | 44 |
| Iechyd a Diogelwch | 45 |
| Y Gymraeg | 48 |
| Cyfathrebu | 52 |
| **5. Pobl a Diwylliant** | **53** |
| Pobl a Diwylliant | 54 |
| Iechyd a Llesiant | 54 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 56 |
| Dysgu a Datblygu | 58 |
| Cynllun Buddion Staff | 60 |
| **6. Sut Rydym yn Creu Dyfodol Cynaliadwy** | **63** |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 64 |
| Cynaliadwyedd | 65 |
| Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern | 75 |
| Partneriaeth Gymdeithasol | 76 |
| **7. Ein Pobl** | **77** |
| Ein Pobl - Cipolwg | 78 |
| **8. Edrych Ymlaen** | **84** |
| Ein Hegwyddorion | 85 |
| Ein Cynllun ar Dudalen | 87 |
| Ein Blaenoriaethau Strategol 2026-29 | 88 |
| **9. Tudalen Gloi** | **90** |

# Hawlfraint

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru Adolygiad Blynyddol 2025–26**

© Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2026

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim (ac eithrio logos adrannau neu asiantaethau) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y ceir caniatâd i wneud hynny ac y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol.

Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Os mai deunydd trydydd parti ydyw, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Os hoffech ragor o gopïau o'r ddogfen hon, gellir lawrlwytho fersiynau Saesneg a Chymraeg o'n gwefan.

Os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn roi crynodeb o'r ddogfen hon mewn ieithoedd gwahanol, mewn print mwy neu Braille.

02921 501500

nwssp.wales.nhs.uk

NHS Wales Shared Services Partnership

shared.services@wales.nhs.uk

NHS Wales Shared Services Partnership
4-5 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Cardiff
CF15 7QZ




# 1. Cyflwyniad

# Cyflwyniad y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd



**Mr Neil Frow OBE**
NWSSP Managing Director



**Tracy Myhill OBE**
Chair

Croeso i Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar gyfer 2025-26. Mae 2025–26 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol i ni wrth i ni nodi pymtheg mlynedd o gefnogi GIG Cymru gyda gwasanaethau arbenigol a ddarperir yn genedlaethol, gan ddathlu ein rôl wrth sbarduno gwerth, arloesedd a gweithio mewn partneriaeth.

Dros y cyfnod hwn, rydym wedi tyfu'n sylweddol o ran maint ac ystod y gwasanaethau a ddarparwn, gyda gwasanaethau yn cefnogi'r rhan fwyaf o wariant GIG Cymru. Mae eleni hefyd yn ddeng mlynedd ar hugain ers sefydlu'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn GIG Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom barhau i chwarae rhan hanfodol wrth alluogi'r system iechyd i weithredu'n effeithiol, gan ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar raddfa fawr, ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, a chefnogi partneriaid yn ystod cyfnod o bwysau gweithredol ac ariannol parhaus ac o bwysau cyson ar y gweithlu.

Ar draws yr holl wasanaethau, rydym wedi cadw ffocws clir ar ansawdd, diogelwch, gwerth a gwydnwch, gan gyflawni rhaglenni cenedlaethol mawr, cryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd, datblygu buddsoddiad cyfalaf a digidol sylweddol, a chefnogi sefydliadau trwy heriau cymhleth ac esblygol.

Roedd hyn yn cynnwys cyflawni arbedion o £58.3 miliwn drwy ein tîm caffael cenedlaethol, 936,000 o frechiadau a roddwyd drwy ein rhaglenni logisteg a brechu, cynnydd parhaus gyda'r Gwasanaeth Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) a pherfformiad cryf yn erbyn ein hamcanion datgarboneiddio ac addasu.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom barhau i ddangos stiwardiaeth ariannol gref, gafael weithredol ac arweinyddiaeth ar systemau, wedi'i ategu gan ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a gwelliant parhaus.

Fe wnaethom hefyd barhau i gryfhau ein dylanwad proffesiynol, gan gefnogi GIG Cymru drwy gyngor arbenigol, dysgu ar y cyd a datblygu safonau ac ymarfer o ansawdd uchel ar draws gwasanaethau. Mae hyn yn ymestyn manteision dull partneriaeth cydwasanaeth cenedlaethol y tu hwnt i ddarpariaeth uniongyrchol, gan helpu i ddatblygu gallu a gwydnwch ar draws y system ehangach.

Yn ogystal, fe wnaethom alluogi ailfuddsoddi gwerth mewn gofal rheng flaen drwy ddosbarthu arbedion o £6 miliwn o arian parod yn ôl i sefydliadau GIG Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd PCGC, yn unol ag uchelgeisiau Cymru Iachach a diwygio'r system yn ehangach.

Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd bod fframwaith llywodraethu'r sefydliad yn gadarn yn ei hanfod ac yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau effeithiol, atebolrwydd clir a rheoli risg cadarn. Roedd hefyd yn cydnabod yr her o gydbwyso'r angen i gryfhau trefniadau llywodraethu wrth gynnal sefydlogrwydd sefydliadol a pharhad y gwaith o gyflawni yn ystod cyfnod o bwysau a newid ehangach yn y system.

Mae'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025–26 yn adlewyrchu proffesiynoldeb, arbenigedd ac ymroddiad ein pobl. Mae ein staff wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid, cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu datrysiadau ymarferol sy'n gwella cysondeb, effeithlonrwydd a chanlyniadau ar draws GIG Cymru.

Mae hyn wedi cael ei ategu gan ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid; rhoi cydnabyddiaeth i gyfraniad staff drwy wobrau, dathliadau a ffynonellau sicrwydd ffurfiol fel achrediadau ac archwiliadau annibynnol. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygu sefydliadol, llesiant a chynaliadwyedd, gan gynnwys ein Cynhadledd Flynyddol Iechyd a Llesiant. Mae lefelau salwch staff yn parhau'n sefydlog ac ar daflwybr tuag i lawr, gyda pherfformiad yn gyson islaw meincnodau GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, gan ddangos gwelliant cyson a rheolaeth effeithiol o salwch hirdymor a thymor byr.

Roedd nodi ein pymthegfed pen-blwydd yn gyfle pwysig i ystyried pa mor bell y mae'r sefydliad wedi dod ac i ailddatgan ein hymrwymiad i wella gwasanaethau, cryfhau partneriaethau a rhoi ein gorau glas i GIG Cymru.

Fe wnaethom hefyd benodi nifer o uwch arweinwyr i gefnogi parhad, gwydnwch a pharhad darpariaeth rhaglenni cenedlaethol cymhleth, gan sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb i flaenoriaethau'r dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys penodi Laura-Jayne Keating yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol Fferyllol a Dr Martin Edwards yn Gyfarwyddwr Meddygol.

Nododd 2025–26 hefyd ddiwedd cyfnod Tracy Myhill OBE fel Cadeirydd PCGC, yn dilyn pedair blynedd a hanner o wasanaeth eithriadol. Yn ystod ei chyfnod gyda'r sefydliad, rhoddodd Tracy arweinyddiaeth hyderus, wedi'i sbarduno gan werthoedd, gan arwain PCGC trwy gyfnodau o newid a her sylweddol, gan gynnwys twf sefydliadol, diwygio systemau a disgwyliadau cenedlaethol uwch. Nodweddwyd ei chyfnod yn y swydd gan ffocws cryf ar lywodraethu, gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu â staff a phwysigrwydd arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol. Mae PCGC yn ddiolchgar am ei hymrwymiad, ei mewnwelediad a'i chyfraniad, sydd wedi gadael gwaddol i'r sefydliad a system ehangach GIG Cymru.

Wrth i ni edrych ymlaen, mae'r sefydliad yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddatblygu ar y sylfeini a osodwyd dros y pymtheg mlynedd diwethaf. Mae'r cyflawniadau'n dangos maint ein cyfraniad a'i bwysigrwydd fel partner cenedlaethol dibynadwy, sy'n cefnogi GIG Cymru i ddiwallu'r gofynion cyfredol wrth baratoi ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.



# 2.
# Cipolwg ar PCGC

# Ein Blwyddyn mewn Rhifau

Mae PCGC yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel ar gyfer GIG Cymru ac ar ei ran, gan weithio hefyd gyda'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach hefyd, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru. Dyma giplun o raddfa, gwerth ac effaith ein gwasanaethau yn ystod 2025–26.

Yn ystod 2025-26, cyfanswm y gwariant oedd **£1.156bn**

**£452m** miliwn ar gostau cyflogau

**£266m** ar gostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau

**£438m** yn Wariant Cronfa Risg Cymru

Parhau i **ailfuddsoddi arbedion** er budd GIG Cymru

Dosbarthu arbedion o **£6m** i bartneriaid GIG Cymru a Llywodraeth Cymru

Paratoi **3,640** o feddyginiaethau i'w chwistrellu, parod i'w defnyddio, ar gyfer gwasanaethau gofal critigol a chanser

Cyflawni cyfanswm o **£39.5m** o arbedion oedd yn rhyddhau arian parod drwy gaffael meddyginiaethau

Prosesu mwy na **85,834,011** o bresgripsiynau

Sganio **36,095,285** o ffurflenni presgripsiwn

Prosesu mwy na **2.04 miliwn** o anfonebau, gyda gwerth o bron i **£9.3bn**

Trin mwy na **29,892,539** o eitemau golchdy

Prosesu mwy na **1,746,544** o slipiau cyflog

Dosbarthu **19,712** o gynigion recriwtio amodol

Teithio **423,805** milltir mewn cerbydau fflyd trydan

Teithio **112,339** milltir mewn cerbydau trydan hybrid plygio-i-mewn (PHEV)

Arbed **130** tunnell fetrig o $CO_2e$ trwy ddefnyddio faniau trydan, o'i gymharu â faniau diesel cyfatebol

Rhoi **936,000** o frechiadau trwy ein rhaglenni logisteg a brechu

Dosbarthu **241,167,770** o eitemau o Offer Diogelu Personol (PPE)

Cyflawnwyd **£333m** mewn arbedion o ran dylanwad proffesiynol, gan gynnwys:

- Cynhyrchodd tîm Fferylliaeth y Gwasanaethau Caffael arbedion o **£33.4m**
- Llwyddodd y Gwasanaethau Caffael i arbed **£18.3m** o ganlyniad i osgoi costau
- Cynhyrchodd Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg arbedion o **£244.7m**
- Cynhyrchodd y Gwasanaethau Caffael arbedion o **£16.9m**
- Cynhyrchodd Cyfrifon Taladwy arbedion o **£12.4m**
- Cynhyrchodd y Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth Cyllid Ocsigen arbedion o **£0.6m**
- Cynhyrchodd Adeiladu ar gyfer Cymru y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol arbedion o **£1.2m**
- Cynhyrchodd y Gwasanaethau Atal Twyll arbedion o **£0.9m**
- Cynhyrchodd y Gwasanaethau Ystadau Arbenigol arbedion o **£4.2m**
- Llwyddodd y Tîm Caffael Cenedlaethol i arbed **£58.3m**

# Ein Gwasanaethau

Mae PCGC yn cynnig portffolio cynhwysfawr o wasanaethau sy'n cefnogi darparu gofal iechyd diogel, effeithiol ac effeithlon ar draws GIG Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn, a nodir isod, yn cwmpasu swyddogaethau cymorth gweithredol, clinigol a sicrwydd, gan roi cysondeb cenedlaethol, arbenigedd arbenigol a darbodion maint i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru. Gyda'i gilydd, maent yn chwarae rhan hanfodol wrth gryfhau llywodraethu, galluogi cyflenwi gwasanaethau a chefnogi canlyniadau gwell i gleifion a'r cyhoedd. Mae darparu'r gwasanaethau hyn wedi'i ategu gan gyfarwyddiaethau corfforaethol PCGC, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol, a Chynllunio, Perfformiad a Gwybodeg, sy'n rhoi'r seilwaith, y gallu a'r trosolwg hanfodol sydd eu hangen i sicrhau sefydliad cydlynol, sy'n perfformio'n dda. Gyda'i gilydd, mae'r model integredig hwn yn galluogi PCGC i ddarparu gwerth cynaliadwy a gwelliant parhaus i GIG Cymru.

Yn ystod 2025-26, parhaodd y gwaith i wreiddio Gwasanaethau'r Golchdy a'r Gwasanaethau Archwilio Meddygol o fewn PCGC, ochr yn ochr ag ehangu parhaus y Gwasanaethau Technegol Fferyllol a datblygu rhaglen gysylltiedig y Gwasanaethau Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) a Radiofferylliaeth. Ehangodd y ffocws hefyd i sicrhau effeithlonrwydd busnes fel arfer ar draws adrannau eraill o'r sefydliad, gan sicrhau bod integreiddio gwasanaethau, trawsnewid a gwerth gweithredol yn cael eu datblygu ochr yn ochr.

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Cyfrifon Taladwy
- Gwasanaethau Atal Twyll Cymru
- E-Fusnes Canolog Tîm
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- e-Alluogi
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Gwasanaeth Archwilio Meddygol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Gwasanaethau Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Gwasanaethau Fferylliaeth
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Aberthu Cyflog
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- Cronfa Risg Cymru
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru











# Map Strategaeth PCGC

Mae Map Strategaeth PCGC yn rhoi llinell olwg glir rhwng gwerthoedd y sefydliad, ei amcanion strategol a chyflenwi gwasanaethau i GIG Cymru, gan nodi sut mae gwerth, arloesedd a rhagoriaeth yn cael eu cyflawni trwy bartneriaeth. Yn ystod 2025–26, cryfhawyd y Map Strategaeth ymhellach trwy welliannau i amcan Ein Partneriaid, gan atgyfnerthu ymrwymiad PCGC i gydweithio, cyd-gynhyrchu ac arweinyddiaeth systemau, a sicrhau ffocws parhaus ar ddatblygu partneriaethau cryf ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel a chanlyniadau gwell i GIG Cymru.

# Map Strategaeth PCGC

*Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*

## Ein Gwerthoedd

**Gwrando a Dysgu** » **Cymryd Cyfrifoldeb** » **Gweithio Gyda'n Gilydd** » **Arloesi**

## Ein Nodau Strategol

### Ein Pobl

**Hyrwyddo rhagoriaeth drwy arweinyddiaeth, llesiant, cynhwysiant ac amrywiaeth yn y gweithlu**

- Adeiladu diwylliant galluog, perfformiad uchel sy'n denu, datblygu, a chadw pobl dalentog ar gyfer y dyfodol.
- Cryfhau recriwtio drwy iaith gynhwysol a dulliau amrywiol, gan sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ein pobl i gefnogi gweithlu iach a gwydn.
- Ymgorffori diwylliant o gyd-gynhyrchu, gan rymuso staff ar bob lefel i lunio a gwella sut rydym yn gweithio.

### Ein Gwasana-ethau

**Darparu gwasanaethau arloesol o'r ansawdd uchaf sy'n cefnogi nodau GIG Cymru ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus**

- Galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i ddatrys y rhan fwyaf o ymholiadau ar y cyswllt cyntaf trwy wasanaethau cyflymach, o ansawdd uwch, sy'n fwy ymatebol.
- Ysgogi gwelliant ac arloesedd parhaus drwy wasanaethau digidol diogel a sicr, gan osod y safon ar gyfer rhagoriaeth ac ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau.
- Gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgolion i feithrin cydweithio academaidd a datblygiadol.
- Defnyddio gwasanaethau digidol a data seiberddiogel i gynllunio gyda'n gilydd a chefnogi prosesau gwneud penderfyniadau GIG Cymru drwy rannu gwybodaeth.

### Ein Gwerth

**Cynyddu effeithlonrwydd, dangos gwerth, a gwella iechyd y boblogaeth yn rhan o system iechyd a gofal ehangach Cymru**

- Gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar, sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy lywodraethu partneriaeth i yrru trawsnewid a chyflawni gwerth.
- Cydweithio ar draws y system i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyrraedd targedau datgarboneiddio.
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon i wneud y mwyaf o gynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- Nodi cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru drwy gadwyn gyflenwi gynhwysol a chyfrifol.

### Ein Partneriaid

**Gwella cydweithio trwy bartneriaeth gydfuddiannol i gyflawni nodau iechyd a rennir a gwasanaethau gwell**

- Gweithio trwy gyd-gynhyrchu gyda'n partneriaid i ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau a gwerth ar draws iechyd a gofal.
- Cydweithio â sefydliadau iechyd a gofal, diwydiant, a'r byd academaidd i rannu mewnwelediad, arloesedd ac arbenigedd.
- Cryfhau perthnasoedd ar draws y system sy'n galluogi cynllunio ar y cyd a gwelliant cynaliadwy ar gyfer GIG Cymru.
- Dangos arweinyddiaeth wrth weithio mewn partneriaeth, meithrin ymddiriedaeth ac aliniad i gyflawni blaenoriaethau cyffredin ar draws y system iechyd a gofal.




# 3.
# Yr Hyn yr Ydym yn Falch Ohono

# Llwyddiannau, Arloesedd ac Astudiaethau Achos

*Astudiaethau Achos wedi'u halinio â'n hamcanion strategol:*

## Ein Gwerth

- Cyflwyno Arloesiadau Datgarboneiddio ar draws PCGC: Cyflawniadau ac effaith
- System Gwybodaeth Gweithlu Gofal Sylfaenol Cam 1
- Stoc Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) Pandemig
- Cynorthwyo i ddatblygu polisi gor-dalu cyflogau ar gyfer GIG Cymru

## Ein Gwasanaethau

- 'Shift West' gwasanaethau'r golchdy i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd wrth ddarparu manteision ariannol ac amgylcheddol
- Sefydlu gwasanaeth microbioleg amgylcheddol fferyllol i gefnogi Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS)
- Cadw Cymru'n Ddiogel: Rhaglen Caffael a Dosbarthu Brechlynnau Ffliw GIG Cymru Genedlaethol 2025

## Ein Partneriaid

- Datblygu System Cof Cyfieithu Cymru Gyfan
- Rhaglen Llwybr i Bartneriaeth a Hyfforddiant ST3 Meddygon Teulu – Cymorth hyfforddiant eiddo
- Caffael Mewnoli Cenedlaethol ar gyfer apwyntiadau cyntaf Cleifion Allanol – Gwneud gwahaniaeth i Gleifion yng Nghymru

## Ein Pobl

- Lansio ein Gwasanaeth Ymgynghori Pobl a Diwylliant newydd
- Lansio "Gweithio'n Hyderus": Llwyfan ar gyfer Lleisio Barn yn Ddienw

# Uchafbwyntiau o 2025-26

### Cyflwyno Rôl Technegydd Gweithgynhyrchu Gwyddonol Newydd

Sefydlodd cymhwyster prosesu aseptig newydd rôl dechnegol newydd, gan gryfhau gallu'r gweithlu fferylliaeth yng Nghymru.

### Lansiwyd System Rheoli Achosion Cyfreithiol Newydd

Cyflwynwyd system ddigidol i wella effeithlonrwydd, awtomeiddio a throsolwg ar draws Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.

### Buddsoddiad mewn Radiofferylliaeth ac Ymweliad Gweinidogol

Cyhoeddwyd cyfleuster Radiofferylliaeth gwerth £7.5 miliwn yn IP5, gan wella'r gallu i ddarparu meddyginiaethau arbenigol a gwella canlyniadau cleifion.

### Ymgysylltu Cenedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd

Hyrwyddodd PCGC yrfaoedd a gwasanaethau GIG Cymru yn Eisteddfod yr Urdd, gan gryfhau ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth.

### Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru i Ddatgarboneiddio

Derbyniwyd sgoriau cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru am gynnydd ar weithgareddau datgarboneiddio ac addasu.

### Cynnydd ar Drawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS)

Cymeradwyo cynlluniau datblygedig achos busnes Hwb De-ddwyrain Cymru i foderneiddio gweithgynhyrchu meddyginiaethau.

### Uwchraddio Gwasanaethau Golchdy sy'n Effeithlon o ran Ynni

Gwellodd buddsoddiad mewn sychwyr newydd berfformiad amgylcheddol ac effeithlonrwydd gweithredol.

### Cryfhau Partneriaeth Gwrth-dwyll

Fe wnaeth cytundeb ffurfiol gyda Heddlu De Cymru wella'r cydweithio i atal ac ymchwilio i dwyll.

### Cefnogi Cyflogaeth Drwy Bartneriaeth

Fe wnaeth cydweithio â Serco gefnogi unigolion i rolau yn y GIG, gan gryfhau cyflenwad y gweithlu a chynhwysiant.

### Cynyddu Capasiti Cleifion Allanol Trwy Gontractio Mewnol

Galluogodd menter gaffael genedlaethol 164,000 o apwyntiadau, gan wella mynediad a lleihau amseroedd aros.

### Cyflenwi Hyfforddiant Rheoli Eiddo Meddygon Teulu

Cefnogodd hyfforddiant feddygon teulu i ddeall ystadau a chyfrifoldebau cytundebol o fewn gofal sylfaenol.

### Canfyddiadau Cadarnhaol Archwilio Cymru ynghylch Rhestrau Meddygon Teulu

Cadarnhaodd Archwilio Cymru reolyddion cryf a chywirdeb wrth reoli rhestrau cleifion Meddygon Teulu, heb unrhyw bryderon sylweddol ynghylch twyll.

### Cyllid Cyfalaf wedi'i Dargedu yn Cyflawni Gwelliannau Allweddol

Defnyddiwyd cyllid cyfalaf ychwanegol Llywodraeth Cymru i gyflawni amrywiaeth o fuddsoddiadau wedi'u targedu ar draws ystadau, seilwaith digidol, ac offer gweithredol, gan gynnwys uwchraddio cyfleusterau (e.e. IP5, Gwasanaethau Golchdy a Radiofferylliaeth), datblygu TrAMS, mentrau datgarboneiddio, a rhaglenni adnewyddu TG, a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn gan danwariant o fewn y dyraniad cyfalaf dewisol, gan wneud cyflawni ar draws cynlluniau blaenoriaeth luosog yn bosibl.

### Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Pwyllgor yr Hydref

Cytunodd yr aelodau i gryfhau'r fframwaith strategol drwy gyflwyno pedwerydd amcan strategol sy'n canolbwyntio ar Ein Cwsmeriaid, gan atgyfnerthu ymrwymiad y sefydliad i ansawdd gwasanaeth a chanlyniadau i randdeiliaid.

# Ardystiadau a Sicrwydd Allanol

Mae PCGC yn parhau i ddangos ei hymrwymiad i ansawdd, atebolrwydd a gwelliant parhaus trwy raglen gadarn o ardystiadau allanol ac archwiliadau wedi'u gwirio'n annibynnol, ar draws ei gwasanaethau. Ar lefel gorfforaethol, cadwodd y sefydliad ei Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid (CSE) a chyflawnodd ardystiad i Safon Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, gan atgyfnerthu ei ffocws ar foddhad cwsmeriaid a chyfrifoldeb amgylcheddol.

Cynhaliwyd ystod eang o archwiliadau allanol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys asesiadau ar gyfer Diogelwch Bwyd STS, Trwyddedu Cludo Nwyddau Peryglus a chydymffurfedd â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Hefyd, cafodd sawl gwasanaeth trosolwg rheoleiddiol gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), gan gwmpasu Arferion Dosbarthu Da (GDP) ac Arferion Gweithgynhyrchu Da (GMP).

Ar draws y sefydliad, parhaodd is-adrannau i ddal ardystiadau ISO 27001 (Rheoli Diogelwch Gwybodaeth), ISO 9001 (Rheoli Ansawdd), ISO 11014 (Taflenni Data Deunyddiau a Diogelwch), ac ISO 45001 (Rheoli Iechyd a Diogelwch). Yn nodedig, cwblhaodd y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) ei arolygiad pedair blynedd yn llwyddiannus i ISO/IEC 17025, sef safon a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer labordai profi a graddnodi, heb unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Mae achrediadau ychwanegol yn cynnwys Lexcel ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, sy'n cael asesiadau trylwyr blynyddol a phob tair blynedd ac ardystiad ISO/IEC 20000-1 a BACS ar gyfer Gwasanaethau E-Fusnes Canolog. Mae PCGC hefyd yn dal Achrediad Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl fel Sefydliad Hyfforddi, gan gefnogi llesiant staff ymhellach.

Yn ystod y flwyddyn, dyfarnwyd statws Cyflogwr Cymeradwy ACCA – Datblygiad Proffesiynol i'n tîm Cyllid hefyd, gan gydnabod ein hymrwymiad i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus aelodau ACCA. Mae'r achrediad pwysig hwn gan y corff cyfrifyddu byd-eang yn amlygu ymroddiad PCGC i feithrin twf proffesiynol.

Nid yn unig y mae'r ardystiadau hyn yn dyst i'r safonau uchel a gynhelir ar draws PCGC, maent hefyd yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Dyletswydd Ansawdd y sefydliad. Cânt eu defnyddio'n weithredol i lywio sicrwydd mewnol, gwelliant parhaus, a dysgu traws-sefydliadol, gyda chefnogaeth offer fel SharePoint ac adborth gan aseswyr allanol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi sicrwydd i'n partneriaid, ein cwsmeriaid a'r cyhoedd bod PCGC yn gweithredu gydag uniondeb, diogelwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd.



# Gwobrau a Chydnabyddiaeth

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae PCGC wedi dangos ffocws cryf a chyson ar gydnabod rhagoriaeth, dathlu cyfraniadau staff, a chael cydnabyddiaeth allanol i'w gwasanaethau a'i phobl.

Yn fewnol, mae rhaglen Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff y sefydliad yn parhau i fod yn fecanwaith canolog ar gyfer dathlu cyflawniad. Cynhaliwyd seremonïau gwobrwyo blynyddol i gydnabod cyfraniadau eithriadol ar draws categorïau fel arloesedd, arweinyddiaeth, gwaith tîm, a gwasanaeth hir, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rhithiol a thrwy gyfres o seremonïau wyneb yn wyneb ar draws safleoedd rhanbarthol i gydnabod enillwyr yn bersonol. Mae'r rhaglen yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o atgyfnerthu gwerthoedd sefydliadol, gyda lefelau uchel o ymgysylltiad yn amlwg drwy gyflwyniadau enwebu sylweddol a hyrwyddo categorïau yn barhaus sy'n adlewyrchu arweinyddiaeth, cynhwysiant, cynaliadwyedd a chyfraniad eithriadol.

Mae'r gydnabyddiaeth fewnol hon wedi'i hategu gan weithgarwch dathlu ehangach gan y sefydliad, gan gynnwys paratoadau i nodi pymtheg mlynedd ers sefydlu PCGC ym mis Ebrill 2026. Mae'r garreg filltir hon yn gyfle i fyfyrio ar gyflawniadau'r sefydliad a chydnabod cyfraniad staff dros amser, gyda chydweithwyr yn cael eu gwahodd i rannu straeon a cherrig milltir i gefnogi'r coffáu hwn. Yn ogystal, mae digwyddiadau ymgysylltu ehangach fel y Gynhadledd Iechyd a Llesiant wedi atgyfnerthu cydnabyddiaeth o gyfraniad staff o ran lles, cynhwysiant ac ymgysylltiad, gan ddangos ymrwymiad parhaus i werthfawrogi staff y tu hwnt i strwythurau gwobrwyo ffurfiol.

Yn allanol, mae PCGC wedi sicrhau cydnabyddiaeth sylweddol ar draws ystod eang o wobrau rhanbarthol, cenedlaethol a sector-benodol. Mae'r sefydliad wedi cyrraedd rhestr fer yn gyson ar draws nifer o raglenni gwobrau proffil uchel, gan gynnwys Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd GIG Cymru, Gwobrau Gweledigaeth y Dyfodol y DU Fforwm y Cydwasanaethau, Gwobrau GIG Cymru, Gwobrau Ystadau Cymru a Gwobrau Dewi Sant. Mae'r enwebiadau hyn yn cwmpasu ystod eang o gategorïau, gan gydnabod rhagoriaeth mewn meysydd fel caffael cynaliadwy, cyflawni prosiectau cyfalaf, arloesedd, gwerth cymdeithasol, cyflenwi gwasanaethau, rheoli ystadau, a chydweithio ar draws sectorau.





Cafwyd llwyddiant nodedig hefyd, gan gynnwys ennill gwobr am y Rhwydwaith/Cymuned Cynaliadwyedd Orau am waith a gyflawnwyd drwy Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru. Mae mwy o gydnabyddiaeth allanol yn cynnwys llwyddiant yng ngwobrau'r Gymdeithas Cyflenwadau Gofal Iechyd, lle sicrhaodd Gwasanaethau Caffael nifer o wobrau, gan gynnwys ennill nifer o gategorïau a sawl gwobr am glod uchel ar draws logisteg, cynaliadwyedd, rhagoriaeth mewn caffael ac arloesedd.

Rhoddwyd cydnabyddiaeth hefyd i staff unigol a thimau arbenigol. Mae hyn yn cynnwys Gwobr Arloeswr a dderbyniwyd yn fforwm cwsmeriaid Empower FISCAL Technologies i gydnabod cyfraniadau at wella systemau a phrosesau digidol. Cafwyd cydnabyddiaeth genedlaethol hefyd drwy Wobr Diabetes am gyfraniad un aelod staff at ofal diabetes, drwy arweinyddiaeth caffael. Yn ogystal, mae timau ar draws PCGC wedi cyrraedd y rhestr fer am wobrau blaenllaw yn y sector, gan gynnwys Gwobrau Cyfreithiol LexisNexis, sy'n cydnabod perfformiad ardderchog, gwella gwasanaethau, arloesedd ac effaith o fewn gwasanaethau Cyfreithiol a Risg a Chronfa Risg Cymru.

Sicrhawyd enwebiadau unigol hefyd am wobrau proffesiynol cenedlaethol, sy'n adlewyrchu arweinyddiaeth a rhagoriaeth mewn rheoli'r gweithlu a phobl.

Cafodd cyflawniad pellach ei adlewyrchu drwy feincnodi ac achredu, gan gynnwys dyfarnu Gwobr Efydd TIDE gan Rwydwaith y Cyflogwyr dros Gydraddoldeb a Chynhwysiant, i gydnabod cynnydd mewn arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae PCGC hefyd wedi llwyddo i gynnal ei hachrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan ddangos ymrwymiad parhaus i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel a gwelliant parhaus, wedi'i gefnogi gan adborth allanol cadarnhaol.

Gyda'i gilydd, mae'r cyflawniadau hyn yn dangos cydnabyddiaeth sefydliadol barhaus ar draws sawl parth, gan gynnwys pobl, gwasanaethau, cynaliadwyedd, arloesedd ac arweinyddiaeth. Mae'r ehangder hwn o gydnabyddiaeth fewnol ac allanol yn tynnu sylw at effaith PCGC ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach, wrth atgyfnerthu diwylliant sefydliadol cryf sy'n gwerthfawrogi, yn dathlu ac yn cydnabod cyfraniad ei phobl ar bob lefel.






# Cydnabod Staff

Cynhaliodd PCGC ei Gwobrau Cydnabod Staff ar 13 Ionawr 2026, gan roi cyfle i’r Uwch Grŵp Arwain gydnabod yn ffurfiol ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb anhygoel ein staff i gyd. Dyma oedd y degfed digwyddiad blynyddol, a’r pumed a gynhaliwyd yn rhithwir, oedd yn dathlu ymrwymiad a gwaith caled unigolion a thimau sydd wedi mynd y tu hwnt i’r disgwyl yn eu rolau, gan sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu ar draws GIG Cymru.  Cafodd staff eu cydnabod mewn amrywiaeth o gategorïau, gyda phob derbynnydd yn dangos ymroddiad a rhagoriaeth eithriadol yn eu meysydd priodol, gan gyfrannu’n sylweddol at lwyddiant ac effeithlonrwydd cyffredinol PCGC.

Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol yr oedd Gwobrau Gwerthoedd Craidd PCGC (Arloesi, Gweithio Gyda’n Gilydd, Gwrando a Dysgu a Chymryd Cyfrifoldeb), Hyrwyddwyr Diwylliant y Gymraeg, Arweinyddiaeth, Arwyr Cudd, Iechyd a Llesiant, Dangos Esiampl ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tîm y Flwyddyn, Cyfraniad Amgylcheddol at Gynaliadwyedd, Gwobr Partneriaeth Undebau Llafur, Gwobrau Seren y Rheolwr Gyfarwyddwr, a Gwobrau Gwasanaeth Hir.

Roedd y digwyddiad yn ddathliad sefydliadol, yn llawn straeon ysbrydoledig a diolchgarwch diffuant. Roedd yn gyfle i gydweithwyr ddod at ei gilydd, myfyrio ar eu cyflawniadau, ac edrych ymlaen at lwyddiannau yn y dyfodol. Roedd yr awyrgylch yn un o gyfeillgarwch a balchder, wrth i bawb ddathlu cyflawniadau cyfunol teulu PCGC.

Cynhaliwyd y seremoni yn rhithwir drwy Microsoft Teams, gan roi cyfle i staff o wahanol leoliadau gymryd rhan a dathlu gyda’i gilydd, waeth ble oedd eu lleoliad daearyddol. Yn ogystal, darlledwyd y digwyddiad ar draws amrywiol safleoedd PCGC, gan sicrhau bod cyfle gan bawb i ymuno yn y dathliadau. Sicrhaodd y fformat rhithwir hwn fod y digwyddiad yn hygyrch ac yn gynhwysol i staff, gan ddangos ymrwymiad PCGC i ddefnyddio technoleg i ddod â phobl ynghyd.

Wrth i PCGC barhau i ymdrechu am ragoriaeth, mae’r digwyddiad yn ein hatgoffa am y doniau a’r ymroddiad anhygoel o fewn y sefydliad. Nid yn unig y mae’r gwobrau hyn yn anrhydeddu cyflawniadau unigol a thîm, maent hefyd yn ysbrydoli eraill i anelu at ragoriaeth yn eu rôl. Roedd y seremoni yn llwyddiant ysgubol, gan arddangos y gorau o’r hyn sydd gan y sefydliad i’w gynnig a gosod safon uchel ar gyfer y dyfodol. I barhau â’r dathliadau, cynhaliom ddigwyddiadau rhanbarthol wyneb yn wyneb ledled Cymru, lle y gallai’r Uwch Grŵp Arwain ddiolch yn bersonol i’n henillwyr a chyflwyno eu gwobrau a’u tystysgrifau iddynt.





# 4. Pa Mor Llwyddiannus Oeddem?

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein dangosyddion perfformiad allweddol a'n targedau ar gyfer y cyfnod adrodd ariannol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Lle nad yw targedau wedi'u cyrraedd, rhoddwyd esboniad. Yn ystod y flwyddyn ariannol, bu datblygiad sylweddol o ran Adrodd yn Seiliedig ar Ganlyniadau gydag aelodau o Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau. Mae'r adroddiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn nodi symudiad strategol tuag at fesur effaith a gwerth gwasanaethau ochr yn ochr â mesurau perfformiad traddodiadol. Mae'r dull hwn yn cysylltu data perfformiad yn agosach â'n canlyniadau a'n hamcanion strategol.

## Archwilio a Sicrwydd

Cyflwynir archwiliadau ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno ac ymateb y rheolwyr i gyflymder cynhyrchu adroddiad drafft (15 diwrnod) sy'n mesur cyflymder y gwaith o gynhyrchu adroddiadau o fewn y sefydliad iechyd. Methwyd â chyrraedd y targed ar 72% yn erbyn targed o 80%, fodd bynnag, mae Penaethiaid Archwilio yn trafod oedi fel hyn yn uniongyrchol gyda sefydliadau iechyd yn barhaus. Mae ein Penaethiaid Archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau'r GIG i helpu i wella amseroedd cyflawni yn dilyn ymatebion rheolwyr. Caiff yr holl gynnydd o ran cynlluniau archwilio ei drafod a'i gytuno gydag Ysgrifenyddion y Bwrdd a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio.

## Recriwtio

Bu gwelliannau yn yr amser cyffredinol a gymerir i gyflogi drwy foderneiddio prosesau a glanhau cofnodion hŷn yn y system recriwtio. Yr amser penodi ar gyfartaledd yn 2025-26 oedd 63 diwrnod o'i gymharu â tharged o 71 diwrnod ar gyfer Cymru Gyfan. Fodd bynnag, mae yna rai gwelliannau o hyd y gellir eu gwneud o fewn prosesau unigol yr amser a gymerir i gyflogi. Mae newidiadau i'r Broses Moderneiddio Recriwtio wedi'u rhoi ar waith yn yr holl sefydliadau iechyd ac mae gwelliannau ym mhrofiad rheolwyr ac ymgeiswyr i'w gweld. Mae GIG Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am swyddi gwag, sydd wedi effeithio ar allu rheolwyr i gwblhau'r gwaith o lunio rhestr fer o fewn yr amserlen darged, gyda 6.5 diwrnod yn erbyn targed o 3. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y ceisiadau yn adlewyrchu diddordeb parhaus mewn rolau yn y GIG ond mae hefyd wedi creu pwysau ychwanegol o fewn y broses recriwtio yn ystod y cam o lunio rhestr fer. Mae cyflymder wrth ddiweddaru canlyniadau cyfweliadau hefyd wedi parhau i fod yn faes i'w wella, gyda 4.1 diwrnod yn erbyn targed o 3, gan fod y cam hwn yn ddibynnol ar reolwyr recriwtio yn cadarnhau penderfyniadau'n brydlon ar ôl y cyfweliad. Bydd gwaith yn parhau gyda sefydliadau iechyd i gefnogi diweddariadau cyflymach a gwella taith gyffredinol yr ymgeisydd

## Datrysiadau Gweithlu Digidol

Roedd boddhad cwsmeriaid ar gyfer 2025-26 ychydig islaw'r targed, sef 94% yn erbyn targed o 95%. Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn dangos bod sgoriau niwtral, a effeithiodd ar berfformiad cyffredinol, yn gysylltiedig yn bennaf â materion yn ymwneud â'r system yn hytrach nag ansawdd y gwaith o gyflenwi gwasanaethau.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol Mewnol

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lefel Uchel a Thargedau | 2025 - 26 Gwirioneddol | 2025 - 26 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol** | | |
| Sefyllfa ariannol gytbwys | £-9k | Adennill costau |
| Sefyllfa ariannol gyfalaf gytbwys | O fewn CEL* | O fewn CEL* |
| Dosbarthu i bartneriaid a Llywodraeth Cymru | £6m | Dim Targed |
| Anfonebau nad ydynt yn rhan o’r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod (%) | 98% | 95% |
| **Pobl a Datblygu Sefydliadol** | | |
| Absenoldeb salwch staff (%) | 3.06% | 3.30% |
| Cydymffurfedd ag adolygiadau perfformiad a datblygu (%) | 86% | 85% |
| Cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol (%) | 94% | 85% |
| Gwariant ar asiantaethau sefydliadol o’i gymharu â chyfanswm y gwariant ar gyflogau (%) | 0.01% | <0.8% |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol Gwasanaethau Recriwtio PCGC** | | |
| Amser i gyflogi (dyddiau) | 56.3 | 71 |
| Amser i gymeradwyo swydd wag (dyddiau) | 7.8 | 10 |
| Amser i lunio rhestr fer (dyddiau) | 6.5 | 3 |
| Amser i ddiweddaru canlyniadau cyfweliadau (dyddiau) | 4.1 | 3 |

**CEL – Terfyn Gwariant Cyfalaf*

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol Allanol

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lefel Uchel a Thargedau | 2025 - 26 Gwirioneddol | 2025 - 26 Targed |
|---|---|---|
| **Dylanwad Proffesiynol** | | |
| Buddion dylanwad proffesiynol | £333m | Dim Targed |
| **Gwasanaethau Caffael** | | |
| Arbedion caffael yn ystod y flwyddyn (rhyddhau arian parod a lleihau costau) | £50m | £27m |
| Arbedion caffael yn ystod y flwyddyn (osgoi costau) | £18m | £4m |
| Arbedion caffael blwyddyn gyfan (yn cynnwys dwyn ymlaen) | £58m | £41m |
| **Cyfrifon Taladwy** | | |
| Buddion dylanwad proffesiynol (cysoni datganiadau, y rhaglen cyflenwyr â blaenoriaeth, atal taliadau dyblyg) | £13m | Dim Targed |
| Anfonebau Cymru gyfan wedi'u talu o fewn 30 diwrnod (%) | 96.6% | 95% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | |
| Cywirdeb cyflogres PCGC | 99.96% | 99.6% |
| Cywirdeb y gyflogres yn gyffredinol (gan gynnwys gwallau'r Sefydliad Iechyd) | 99.83% | 99.6% |
| Galwadau'r gyflogres yr ymdriniwyd â hwy (%) | 99% | 95% |
| **Gwasanaethau Recriwtio Sefydliadol Cymru Gyfan** | | |
| Amser i gyflogi (dyddiau) | 63 | 71 |
| Galwadau recriwtio yr ymdriniwyd â hwy (%) | 99% | 95% |
| **Gwasanaethau Recriwtio Sefydliadol Cymru Gyfan PCGC** | | |
| Swyddi gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn (%) | 99.8% | 95% |
| Llythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith(%) | 99.7% | 95% |
| **Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr** | | |
| Galwadau Dyfarniadau Myfyrwyr yr ymdriniwyd â hwy (%) | 98% | 95% |
| Ceisiadau am fwrsariaeth y GIG a gafodd eu prosesu o fewn 20 diwrnod (%) | 100% | 100% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lefel Uchel a Thargedau | 2025 - 26 Gwirioneddol | 2025 - 26 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau e-Fusnes y Tîm Canolog** | | |
| Caiff digwyddiadau â blaenoriaeth uchel a godir gyda'r Tîm Canolog ymateb o fewn 20 munud | 100% | 90% |
| Bydd tocynnau Pwynt Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14:00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith | 100% | 95% |
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | | |
| Mae taliadau Gofal Sylfaenol yn cael eu talu yn unol â therfynau amser statudol | 100% | 100% |
| Cyfraddau cywirdeb mewnbynnu presgripsiynau | 99.73% | 99% |
| Cofnodion meddygol brys a drosglwyddwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| Aseiniadau cleifion a weithredwyd o fewn 24 awr i dderbyn y cais | 100% | 100% |
| Rhybuddion Rhaeadru Categori A i'w cyhoeddi o fewn 4 awr o'u derbyn | 100% | 80% |
| **Gwasanaethau Technegol Fferyllol** | | |
| Cwynion a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd (Mehefin - Mawrth 2026)** | | |
| Barnau Archwilio/Adroddiadau Blynyddol yn cadw at yr amserlen | Yes | Yes |
| Archwiliadau a gyflawnwyd ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno (ac eithrio Archwiliadau Allanol) | 92% | 80% |
| Adroddiad Archwilio ar droi gwaith maes i adroddiad drafft (10 diwrnod) | 100% | 95% |
| Adroddiad Archwilio ar droi ymateb rheolwyr i adroddiad drafft (15 diwrnod) | 72% | 80% |
| Adroddiad Archwilio ar droi ymateb drafft i adroddiad terfynol (10 diwrnod) | 100% | 95% |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbennig** | | |
| Buddion Dylanwad Proffesiynol (gostyngiadau rheoli eiddo/prydlesi/trethi wedi'u negodi) | £5.5m | Dim Targed |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | |
| Buddion dylanwad proffesiynol (arbedion hawliadau wedi'u setlo, arbedion iawndal a chostau) | £245m | Dim Targed |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lefel Uchel a Thargedau | 2025 - 26 Gwirioneddol | 2025 - 26 Targed |
|---|---|---|
| Prydlondeb cydnabod cais cyngor - o fewn 24 awr (%) | 100% | 95% |
| Prydlondeb ymateb i gyngor – o fewn 3 diwrnod neu o fewn yr amserlen a gytunwyd (%) | 99% | 95% |
| **Cronfa Risg Cymru** | | |
| Yr amser rhwng cyflwyno ac ystyriaeth gan y Panel Cynghori ar Ddysgu (%) | 100% | 95% |
| Amser o ystyriaeth gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru (%) | 100% | 95% |
| Cynnal digon o gyfarfodydd o'r Panel Cynghori ar Ddysgu (%) | 100% | 95% |
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | |
| Adroddiadau ymchwiliadau a gwblhawyd o fewn 40 diwrnod o'u derbyn i'r labordy (%) | 100% | 91% |
| Adroddiadau archwiliedig a gyflwynwyd yn brydlon (masnachol)(%) | 100% | 92% |
| Gwerthusiadau sicrwydd technegol a gyflwynwyd yn brydlon (%) | 100% | 90% |
| **Datrysiadau Gweithlu Digidol** | | |
| Boddhad cwsmeriaid % | 94% | 95% |
| Galwadau yr ymdriniwyd â hwy (%) | 95% | 85% |
| **Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan** | | |
| Archebion a anfonwyd yn bodloni archebion sefydlog cwsmeriaid (%) | 95% | 91% |
| Pryderon cwsmeriaid sy'n derbyn ymateb o fewn 24 awr (%) | 100% | 100% |
| Methiant pwyntiau cyswllt microbiolegol (%) | 96% | 90% |
| **Gwasanaethau Archwilio Meddygol** | | |
| Nifer yr achosion a gyfeiriwyd at y Gwasanaethau Archwilio Meddygol (%) | 100% | 100% |
| Achosion sydd "byth" yn codi | 0 | 0 |


# Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb

## Targedau

- Mae PCGC yn rhoi cymorth i holl gyrff y GIG ledled Cymru a rhaid inni ddefnyddio'r gyllideb a ddyrennir inni i gwrdd â'n costau cynnal, ac mae gofyn inni o leiaf adennill costau bob blwyddyn ariannol.
- Yn ogystal, bydd PCGC yn dosbarthu arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i gyrff iechyd ar draws Cymru.
- Yn ogystal â sicrhau bod incwm a gwariant refeniw yn gytbwys, mae gofyn hefyd sicrhau bod unrhyw wariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a roddir gan Lywodraeth Cymru.
- Mae gan PCGC rwymedigaeth statudol i gyflawni ei swyddogaethau o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae gofyniad i barhau i ddatblygu a gwella Rheolaeth Gyllidebol yn unol â Gweithdrefn Rheoli Ariannol PCGC.
- Mae Polisi Dim Archeb Brynu, Dim Taliad (Dim Archeb Brynu, Dim Taliad) Cymru Gyfan yn sicrhau mai dim ond am nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol y mae GIG Cymru yn talu, yn unol â rheolau caffael a chyfarwyddiadau ariannol. Hefyd, mae'n symleiddio prosesu anfonebau i leihau oedi wrth dalu cyflenwyr.
- Yn olaf, mae Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) yn ei gwneud yn ofynnol i PCGC dalu anfonebau i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o roi anfoneb neu o dderbyn y nwyddau/gwasanaethau.

Yn ystod 2025-26 cyflawnwyd pob un o'n targedau perfformiad ariannol, rhagorwyd ar ein targed arbedion a bu'n bosib i ni rannu £6 miliwn o arbedion i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Alldro



## Llwyddiant

**Cyflawnwyd y Terfyn Gwariant Cyfalaf o**
**£11.661m**

**Dosbarthwyd £6m o arbedion**

**Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus, sef**
**98%**

**Cynyddodd yr incwm i**
**£1.155bn**

**Cyflawnwyd yr alldro**
**Adennill**

**Gostyngiad o**
**32%**
**mewn cyflog amrywiol**

## Incwm a Gwariant PCGC


**Gellir crynhoi incwm a gwariant PCGC yn ystod 2025-26 fel a ganlyn:**

| | 2025 - 26 £m | 2024 - 25 £m |
|---|---|---|
| Incwm | 1,155.121 | 891.988 |
| Gwariant | 717.313 | 684.457 |
| WRP - DEL* | 192.067 | 145.011 |
| WRP - AME** | 245.732 | 62.505 |
| Gwarged | 0.009 | 0.015 |

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer talu costau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â hawliadau sydd wedi eu setlo. Caiff gwariant uwchlaw'r dyraniad blynyddol ei adennill o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gan ddefnyddio cytundeb rhannu risg a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar gyfer twf mewn hawliadau craidd.*

***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) i gwrdd â chost cyfrifo ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor hawliadau. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan Gronfa Risg Cymru.*


## Gwariant Refeniw





During the 2025-26 financial year, total expenditure was £1.155bn. £452m was spent on pay costs, £266m on non-pay costs and £438m was Welsh Risk Pool expenditure.

Mae £332 miliwn o'n gwariant cyflogau yn ymwneud â chostau'r Un Cyflogwr Arweiniol. Ar y cyfan, mae gwariant ar staff banc, staff sy'n gweithio dros amser a staff asiantaeth yn gysylltiedig â chyflenwi swyddi gwag neu yn ystod salwch hirdymor. Mae gwariant ar gyflogau cyfradd premiwm yn cael ei leihau cymaint â phosibl, ac rydym wedi gweld gostyngiadau o 88% mewn gwariant asiantaeth a 29% mewn gwariant banc a goramser yn ystod 2025-26 yn dilyn prosesau gafael a rheoli cynyddol. Rhaid cyfiawnhau pob cais am swydd banc a'i gyflwyno i banel i'w gymeradwyo ac mae ap goramser wedi'i gyflwyno yn ystod 2025/26 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer oriau ychwanegol. Trafodir ystyriaethau parhad busnes, cyllid a dewisiadau eraill. Ar 31 Mawrth 2026 roedd gwariant asiantaeth wedi'i ddileu ar draws y sefydliad.

**Mae cynllun yr Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) yn drefniant cyflogaeth sydd wedi'i roi ar waith i reoli a chefnogi'r holl hyfforddeion Meddygol a Deintyddol ledled Cymru yn effeithiol drwy gydol eu rhaglen hyfforddi.*



## Gwariant ac eithrio cyflogau




Arall: £11.131m

- Gwasanaethau Clinigol a Chyflenwadau: £1.745m
- Argraffu a Deunydd Ysgrifennu: £1.585m
- IFRS16: £1.471m
- Dillad Gwely a Llieiniau: £1.399m
- Ad-daliadau o fewn y GIG: £1.34m
- Treuliau'r Sefydliad: £1.17m
- Hyfforddiant: £0.83m
- Dosbarthu a Storio: £0.634m
- Staffio ac Ymgynghoriaeth Contractau Allanol: £0.398m
- Offer a Dodrefn Swyddfa: £0.365m
- Amrywiol: £0.193m

## Buddsoddiadau Cyfalaf

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, derbyniodd PCGC £11.661 miliwn o gyllid cyfalaf. Fe wnaeth £10.894 miliwn hwyluso buddsoddiadau mewn prosiectau cyfalaf gan gynnwys yr uned Radiofferylliaeth newydd, moderneiddio'r gwasanaethau golchdy a warysau, amnewid cerbydau a'n strategaethau rhesymoli datgarboneiddio, digideiddio ac ystadau. Fe wnaethom hefyd dderbyn a gwario cyllid cyfalaf o £0.767 miliwn mewn perthynas â chyfalafu prydlesi sy'n ofynnol o dan IFRS16.



**Radiofferylliaeth yn IP5**




**Adfer Gwres Dŵr Gwastraff Gwasanaethau'r Golchdy**




**Amnewidiadau Cerbydau**

| Gwariant Cyfalaf | Radiofferylliaeth | Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) | Ystadau | Datgarboneiddio | Offer | Digidol / Awtomeiddio | IFRS16 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfleuster Radiofferylliaeth ym Mharc Imperial 5 | 4,404 | | | | | | | 4,404 |
| Moderneiddio gwasanaethau'r golchdy | | | 470 | 765 | 958 | 9 | | 2,202 |
| Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS) | | 855 | | | | | | 855 |
| Adnewyddu TG | | | | | | 767 | | 767 |
| Gwaith Tŷ Matrix a Seilwaith Cerbydau Trydan | | | 24 | 233 | | | | 257 |
| Troshaen To IP5 | | | 1,511 | | | | | 1,511 |
| Ystadau IP5 gan gynnwys Gwydnwch Pŵer | | | 358 | | | | | 358 |
| Gosod paneli ffotofoltaidd ar do Storfeydd Dinbych | | | | 254 | | | | 254 |
| Y Gadwyn Gyflenwi a Warysau | | | 112 | | 99 | | | 211 |
| Uned Meddyginiaethau Dros Dro / Offer Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol | | | | | 44 | | | 44 |
| Iechyd, Diogelwch a Diogeledd | | | 31 | | | | | 31 |
| Prydlesi IFRS16 | | | | | | | 767 | 767 |
| **CYFANSWM** | **4,404** | **855** | **2,506** | **1,252** | **1,101** | **776** | **767** | **11,661** |



Paneli Ffotofoltäig Solar (PV) ar Do Storfeydd Dinbych



Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Tŷ Matrix



Radiofferylliaeth yn IP5

# Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae PCGC yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd a osodwyd gan Weinidogion Cymru, sy'n sicrhau ei bod yn gweithredu mewn partneriaeth wirioneddol â GIG Cymru. Mae PCGC yn cael ei lletya gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, sy'n darparu'r sylfaen gyfreithiol a gweinyddol ar gyfer gweithrediadau PCGC. Mae pob sefydliad GIG yng Nghymru, gan gynnwys Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig, yn cydweithio drwy Femorandwm Cydweithredu i sicrhau bod gwasanaethau a rennir yn cael eu darparu'n effeithiol ac yn unol â strategaeth Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn gyson, gan gynnwys goruchwylio a datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethu, a rheolaeth risg. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol drwy adolygu Cofrestr Risg Gorfforaethol PCGC ym mhob cyfarfod ac yn monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Os na fydd dangosydd wedi cyrraedd y targed, nodir y rhesymau dros hynny a chânt eu cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â chamau i wella perfformiad. Defnyddir sesiynau Archwiliad Dwfn i edrych ar gyfleoedd, risgiau a phroblemau o fewn gwasanaethau PCGC.

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gosod y polisi a'r strategaeth ar gyfer PCGC o fewn y fframwaith cyfreithiol y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu oddi tano, yn monitro'r ddarpariaeth gwasanaethau drwy'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac yn ceisio gwella'r gwaith o ddarparu cydwasanaethau sy'n effeithiol, yn effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn sicrhau arweinyddiaeth, cyfeiriad a rheolaeth gref dros PCGC, gyda ffocws ar gyflawni arbedion y gellir eu hailfuddsoddi mewn gofal uniongyrchol i gleifion.

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn sicrhau bod PCGC yn dilyn egwyddorion llywodraethu da sy'n berthnasol i sefydliadau yn y GIG mewn modd cyson, gan gynnwys datblygu systemau a phrosesau ar gyfer rheolaeth ariannol, rheolaeth sefydliadol, llywodraethu, a rheolaeth risg. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn asesu risgiau strategol a chorfforaethol trwy adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod.

Mae aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC a naill ai'r Prif Weithredwr neu eu cynrychiolydd enwebedig, sy'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru.

Mae Pwyllgor Archwilio Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar gyfer PCGC, yn gyfrifol am adolygu ac adrodd ar weithrediad effeithiol llywodraethu cyffredinol a'r system reoli fewnol. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau cydymffurfio gweithredol, a sicrwydd cysylltiedig sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion a chynnal safonau llywodraethu da. Ceir tystiolaeth o reoli adnoddau yn ystod 2025-26 yn y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**




Mae'r Datganiad yn manylu ar y graddau y mae PCGC wedi cydymffurfio â'i ofynion llywodraethu ei hun, gan grynhoi'r holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth. Cyhoeddir **Papurau Pwyllgor** a **Datganiadau Gweithredol** ac maent ar gael ar ein gwefan.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi barn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth, a llywodraethu yn PCGC, sef Sicrwydd Rhesymol ar gyfer 2025-26.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd PCGC, y gallwch ddarllen mwy amdano yn yr adran Gwersi a Ddysgwyd a Heriau.

Roedd yr adolygiad hefyd yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer ystyried perthynas PCGC ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel sefydliad sy'n lletya.

Mae'r berthynas hon yn parhau i fod yn bwysig wrth roi'r fframwaith statudol a gweinyddol y mae PCGC yn gweithredu ynddo ac wrth gefnogi trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chymorth sefydliadol effeithiol. Ar yr un pryd, amlygodd y flwyddyn heriau o fewn agweddau ar y berthynas, gan atgyfnerthu pwysigrwydd parhau i gryfhau eglurder cydfuddiannol, cyfathrebu, rolau priodol a chyd-ddealltwriaeth rhwng PCGC a'r sefydliad sy'n lletya.

# Trefniadau Ansawdd

Fel sefydliad cydwasanaethau cenedlaethol, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn chwarae rhan alluogi hanfodol wrth ddarparu gofal cleifion diogel, effeithiol a chynaliadwy ledled Cymru. Er nad yw ein gwasanaethau'n glinigol eu natur, mae eu dyluniad, eu dibynadwyedd a'u hansawdd yn cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar wasanaethau clinigol, diogelwch cleifion a chanlyniadau. Yn ystod 2025–26, rydym wedi parhau i gryfhau ein trefniadau llywodraethu i adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn ac i ddarparu sicrwydd, atebolrwydd a dysgu priodol ar draws gwasanaethau sydd ag effaith glinigol uniongyrchol neu anuniongyrchol.

Mae PCGC yn darparu ac yn cynnal nifer o wasanaethau sydd naill ai'n cynnwys cydrannau clinigol neu sydd â dylanwad uniongyrchol ar ofal a diogelwch cleifion. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaethau Technegol Fferyllol, y Gwasanaeth Archwilio Meddygol, y model Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) ar gyfer meddygon a deintyddion dan hyfforddiant, elfennau o Wasanaethau Cyfreithiol a Risg, a rhaglenni cenedlaethol fel Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS). Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i ddatblygu fframwaith llywodraethu mwy penodol a chyson ar draws y gwasanaethau hyn. Roedd hyn cynnwys:

- Nodi'n glir drefniadau arweinyddiaeth glinigol ac atebolrwydd;
- Aliniad â disgwyliadau sicrhau ansawdd GIG Cymru;
- Llwybrau uwchgyfeirio a sicrwydd wedi'u diffinio drwy strwythurau llywodraethu PCGC ac i mewn i bwyllgorau lefel y system a'r lletywr lle bo'n briodol; a
- Cysylltiadau cryfach rhwng goruchwyliaeth ansawdd ar lefel gwasanaeth a sicrwydd sefydliadol, gan gynnwys y Ddyletswydd Ansawdd.

Mae'r gwaith hwn wedi'i lywio gan Adolygiad Annibynnol o lywodraethu ac atebolrwydd PCGC a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a amlygodd bwysigrwydd eglurder a chysondeb mewn trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau ag elfennau clinigol. Mae datblygu'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn 2026–27.



## Diogelwch Cleifion a Dysgu

Mae cyfraniad PCGC at ddiogelwch cleifion yn anuniongyrchol, ond mae'n arwyddocaol. Mae mynediad dibynadwy at feddyginiaethau, logisteg a chadwyni cyflenwi diogel, lleoli gweithlu yn amserol, rheoli pryderon yn effeithiol a dysgu cadarn o hawliadau a digwyddiadau i gyd yn sail i ddarparu gofal diogel ar draws GIG Cymru.
Yn ystod 2025–26, fe wnaethom barhau i gryfhau ein dull o ddysgu o bryderon, cwynion, digwyddiadau a hawliadau. Roedd hyn cynnwys:

- Adolygiad thematig o bryderon a chwynion i nodi materion sy'n codi dro ar ôl tro, yn enwedig o ran cyfathrebu, amseroldeb a chysondeb prosesau;
- Llywodraethu cryfach o ran dysgu o ddigwyddiadau a hawliadau o fewn Cronfa Risg Cymru, gan gydnabod y cymhlethdod cynyddol a'r amlygiad ariannol sy'n gysylltiedig ag esgeulustod clinigol;
- Parhau i ddatblygu systemau cenedlaethol ac offer digidol i gefnogi gwell ansawdd data, amseroldeb a dysgu ar y cyd; a
- Goruchwylio themâu a chamau gweithredu'n rheolaidd drwy'r Uwch Grŵp Arwain er mwyn sicrhau bod dysgu'n cael ei drosi'n welliant mewn gwasanaethau.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i systemau dysgu symud y tu hwnt i sicrwydd ac adrodd er mwyn dylanwadu'n amlwg ar arfer, ymddygiad a dyluniad systemau. Bydd cryfhau ymhellach dolenni dysgu ac adborth i wella gwasanaethau yn ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Ansawdd a Chanlyniadau

Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn darparu'r fframwaith cyffredinol y mae PCGC yn ei sicrhau ei hun, ei bartneriaid a'r cyhoedd bod ansawdd wedi'i wreiddio ar draws yr holl wasanaethau. Yn ystod 2025–26, cafodd ystyriaethau ansawdd eu hintegreiddio i gynllunio strategol, cyflawni gweithredol ac adrodd ar berfformiad, gydag ansawdd yn cael ei drin fel llinyn cyfartal ochr yn ochr â chyllid a pherfformiad.

Er bod llawer o'n hadroddiadau wedi canolbwyntio'n hanesyddol ar fesurau gweithgarwch ac allbwn, rydym wedi parhau i symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys:

- Rhagor o ddefnydd o adrodd yn seiliedig ar ganlyniadau o fewn sicrwydd pwyllgorau;
- Cysylltu perfformiad gwasanaeth ag effaith system, megis mynediad gwell, oedi llai a gwydnwch gwell; a
- Chryfhau'r mynegiant o sut mae cydwasanaethau yn cyfrannu at ddiogelwch, profiad a chanlyniadau cleifion.

Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n esblygu, ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ddatblygu mesurau canlyniad ac effaith mwy cyson sy'n adlewyrchu cyfraniad cydwasanaethau at ofal rheng flaen.

## Iechyd a Diogelwch y Gweithlu

Mae gweithlu iach, sy'n cael ei gefnogi a'i gynnwys yn hanfodol i wasanaethau diogel ac effeithiol. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd PCGC i fuddsoddi mewn llesiant staff, arweinyddiaeth gynhwysol a rheoli presenoldeb yn rhagweithiol. Er bod cyfraddau absenoldeb salwch cyffredinol wedi dangos gwelliant o'u mesur yn erbyn twf y gweithlu, mae absenoldeb salwch hirdymor yn parhau i fod yn faes ffocws, ac yn adlewyrchu pwysau system ehangach a chymhlethdod yr heriau iechyd a llesiant y mae staff yn eu hwynebu.

Mae ein dull yn cydnabod y berthynas agos rhwng llesiant staff, ansawdd gwasanaeth a diogelwch cleifion. Bydd pwyslais parhaus yn cael ei roi ar ymyrraeth gynnar, arferion rheoli cefnogol a mynediad at gefnogaeth iechyd a llesiant galwedigaethol briodol.

## Edrych tua'r Dyfodol

Gan edrych tuag at y dyfodol, bydd PCGC yn parhau i gryfhau ei threfniadau llywodraethu ac ansawdd ac yn rhoi ffocws penodol ar y canlynol:

- Cwblhau a gwreiddio fframwaith llywodraethu clir ar draws y sefydliad;
- Gwella dysgu o niwed a hawliadau i gefnogi atal a gwella systemau;
- Datblygu ymhellach fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n dangos budd i gleifion a'r system; a
- Chryfhau gwelededd a dylanwad arweinyddiaeth glinigol o fewn gwneud penderfyniadau sefydliadol.

Drwy'r gwaith hwn, bydd PCGC yn parhau i gefnogi GIG Cymru drwy ddarparu cydwasanaethau o ansawdd uchel, a thrwy gyfrannu'n weithredol at ofal mwy diogel, canlyniadau gwell a system iechyd fwy gwydn.

# Gwersi a Ddysgwyd a Heriau

Mae'r flwyddyn wedi tanlinellu pwysigrwydd llywodraethu cadarn ac atebolrwydd clir, a gefnogwyd gan ganfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae heriau parhaus mewn dysgu sefydliadol yn tynnu sylw at yr angen i wella ansawdd data, prydlondeb a gwreiddio dysgu mewn ymarfer.

Mae rhaglenni ar raddfa fawr wedi dangos pwysigrwydd ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid a llywodraethu rhaglenni yn gryf, tra bo cyflenwi gwasanaethau cenedlaethol wedi dangos gwerth cydweithio, hyblygrwydd a gwydnwch gweithredol. Mae rôl gynyddol systemau digidol a dulliau sy'n seiliedig ar ddata wedi cefnogi gwneud penderfyniadau a chyflawni gwasanaethau yn well.

## Heriau Allweddol

- Mae pwysau ariannol sylweddol parhaus ar draws GIG Cymru, yn enwedig o fewn Cronfa Risg Cymru, yn parhau i effeithio ar fforddiadwyedd a chynllunio hirdymor.
- Mae risgiau o ran cyflawni o fewn rhaglenni cyfalaf a thrawsnewid mawr yn parhau, yn enwedig lle mae dibyniaethau fel argaeledd safleoedd a chymeradwyaethau allanol yn ffactorau.
- Mae pwysau ar y gweithlu a chapasiti yn parhau ar draws gwasanaethau, ochr yn ochr â'r angen i weithredu gofynion rheoleiddio a gofynion polisi newydd.
- Mae risgiau gweithredol, gan gynnwys methiannau seilwaith a phwysau ar wasanaethau yn ystod cyfnodau brig, yn tynnu sylw at yr angen am wydnwch parhaus a chynllunio wrth gefn.
- Mae risgiau allanol, gan gynnwys ansicrwydd yn y gadwyn gyflenwi a ffactorau byd-eang, yn parhau i gyflwyno heriau i wasanaethau caffael a logisteg.

## Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru o Drefniadau Atebolrwydd a Llywodraethu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Ym mis Ebrill 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o drefniadau atebolrwydd a llywodraethu PCGC, gan gydnabod maint, cymhlethdod ac aeddfedrwydd cynyddol y sefydliad ers sefydlu'r fframwaith presennol. Dilynodd hyn ymrwymiadau a nodwyd yn Cymru Iachach (2018) i adolygu swyddogaethau a letyir a swyddogaethau cenedlaethol i gydgrynhoi gweithgaredd cenedlaethol a rhoi mwy o eglurder o ran llywodraethu ac atebolrwydd.

Daeth yr Adolygiad Annibynnol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu cyffredinol PCGC yn gadarn yn ei hanfod, wrth wneud argymhellion i gryfhau eglurder atebolrwydd, a sicrwydd i Fyrddau'r GIG, ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu allweddol. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais penodol ar weithrediad Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) a'r berthynas rhwng PCGC ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, fel y sefydliad sy'n lletya statudol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru, yn amodol ar ystyriaeth bellach, y rhan fwyaf o argymhellion yr Adolygiad a chyhoeddodd ei Hymateb Dechreuol ochr yn ochr â'r Adolygiad. Mae'r argymhellion yn cynnwys sawl thema graidd, gan gynnwys:

- cryfhau penodi, eglurder rôl a throsolwg ar berfformiad Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, gan gynnwys cyfranogiad priodol gan Felindre;
- egluro trefniadau cymeradwyo a sicrhau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP), gan gynnwys cymeradwyo ffurfiol neu nodi gan Fyrddau'r GIG yn dilyn cymeradwyaeth Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau;
- cryfhau llwybrau adrodd a sicrwydd perfformiad o'r PCGC, drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, i Fyrddau'r GIG sy'n aelodau;
- sicrhau trefniadau llywodraethu priodol a chyson lle darperir gwasanaethau y bernir eu bod yn cynnwys cydrannau clinigol, gyda chysylltiadau clir â sicrwydd ar lefel y Bwrdd;
- egluro prosesau ar gyfer ychwanegu gwasanaethau newydd at bortffolio'r cydwasanaethau drwy fecanweithiau cynllunio a chymeradwyo sefydledig, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- diweddaru dogfennaeth llywodraethu.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Annibynnol ac Ymateb Dechreuol Llywodraeth Cymru ar **wefan Llywodraeth Cymru.**

Mewn ymateb i'r Adolygiad, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gweithredu'r Adolygiad dan arweiniad Llywodraeth Cymru i oruchwylio, cydlynu a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a dderbyniwyd. Mae'r Grŵp Gweithredu yn cynnwys cynrychiolaeth uwch o Lywodraeth Cymru, PCGC ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, gyda chynghorwyr llywodraethu a chyfreithiol yn mynychu yn ôl yr angen. Nid oes gan y Grŵp awdurdod ffurfiol i wneud penderfyniadau; lle mae angen cymeradwyaethau, mae'r rhain yn parhau i gael eu sianelu trwy lwybrau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys y Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a Byrddau'r GIG cyfansoddol, hyd nes bo unrhyw newidiadau wedi'u cytuno a'u gweithredu'n ffurfiol.

Cyfarfu'r Grŵp am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2026, cytunodd ar ei gylch gorchwyl a throsodd argymhellion yr Adolygiad yn rhaglen waith strwythuredig, gydag amserlen bendant gyda'r bwriad o gwblhau gweithredu'r argymhellion dros amserlen o chwe mis. Adroddir ar gynnydd yn rheolaidd i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, gydag eitemau y mae angen eu hystyried neu eu cymeradwyo gan y Bartneriaeth yn cael eu cyflwyno trwy bapurau pwyllgor ffurfiol.

Drwy gydol y broses adolygu a gweithredu, mae PCGC wedi parhau i weithredu o fewn gofynion y fframwaith llywodraethu presennol, cymeradwy, gan gadw at drefniadau atebolrwydd a sicrwydd effeithiol. Mae'r Adolygiad a'i weithrediad parhaus yn rhoi cyfle i gryfhau trefniadau llywodraethu yn weithredol a'u diogelu ar gyfer y dyfodol, gyda goruchwyliaeth barhaus drwy strwythurau llywodraethu sefydledig hyd at 2026–27.



## Rheoli Perfformiad

Fel y gwelir yn y data perfformiad, mae PCGC yn parhau i ddangos hanes cryf o gyflawni yn erbyn yr amcanion a osodwyd gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC), gan weithredu o fewn y gyllideb a chynnal ffocws clir ar werth, ansawdd a gwelliant parhaus. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn rhoi fframwaith strwythuredig lle mae gwasanaethau'n cael eu monitro, eu herio a'u cefnogi i wella, gan helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn gyson â blaenoriaethau sefydliadol ac anghenion partneriaid GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, adolygu tueddiadau dros amser, a chraffu ar feysydd lle mae perfformiad islaw'r targed fel y gellir deall achosion sylfaenol a chymryd camau unioni priodol. Yn ystod 2025–26, fe wnaethom hefyd gryfhau ein defnydd o wybodaeth meincnodi, gan wneud mwy o ddefnydd o ddata cymharol o sefydliadau tebyg i roi cyd-destun ychwanegol ar gyfer perfformiad, cefnogi her a nodi cyfleoedd pellach ar gyfer dysgu a gwella.

Mae'r dull disgybledig hwn o oruchwylio perfformiad wedi cefnogi PCGC i gynnal ansawdd gwasanaethau, cyflawni effeithlonrwydd a chreu arbedion y gellir eu hailfuddsoddi yn natblygiad gwasanaethau PCGC ac i gefnogi sefyllfa ariannol ehangach GIG Cymru. Mae hefyd yn cryfhau atebolrwydd drwy sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio nid yn unig i adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd, ond hefyd i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau, blaenoriaethu gweithgaredd gwella a nodi lle y gallai fod angen cymorth neu ymyrraeth ychwanegol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom hefyd gyflwyno adran llais y cwsmer o fewn yr adroddiadau perfformiad a gyflwynir i bwyllgorau, gan adlewyrchu ymgorffori pedwerydd amcan strategol, Ein Partneriaid, yn ein map strategaeth, yn deillio o ddiwrnod datblygu'r Pwyllgorau a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth o 2025–26 yn adlewyrchu sefydliad sy'n perfformio'n gryf mewn amgylchedd cymhleth wrth barhau i gryfhau aeddfedrwydd ei drefniadau rheoli perfformiad. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adran Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

## Rheoli Pryderon

A hithau'n gweithredu ar draws ehangder gwasanaethau ac mewn systemau cymhleth, ni fydd popeth yn mynd yn ôl y cynllun ac mae yna heriau y mae PCGC wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, fel y maent yn ei wneud weithiau, mae gan PCGC ddiwylliant cryf o ddysgu gwersi a gweithio i wella.

Yn ystod 2025–26, derbyniodd PCGC 35 o bryderon ffurfiol, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol, ac ymatebwyd i 77% ohonynt o fewn y targed o 30 diwrnod gwaith. Lle na allem gwrdd â'r dyddiad cau targed, fel arfer oherwydd cymhlethdod materion, neu amgylchiadau lle mae trydydd parti yn gysylltiedig, cyhoeddir ymateb dros dro ym mhob amgylchiad. Yn ogystal, ymdriniwyd â 2 gwyn datrysiad cynnar yn lleol o fewn 48 awr, gan osgoi'r angen i uwchgyfeirio'r mater yn ffurfiol, o'i gymharu â 20 yn y cyfnod 2024-25. Mae hwn yn ddangosydd cadarnhaol o ddatrysiad lleol cryfach, sy'n awgrymu bod mwy o faterion yn cael eu datrys yn brydlon ac yn effeithiol wrth y ffynhonnell, gan leihau'r angen i uwchgyfeirio trwy'r broses datrysiad cynnar.

Nododd adolygiad thematig o bryderon a chwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd nifer fach o themâu

cyson, cyffredinol. Problemau cyfathrebu, prydlondeb ac oedi, a chymhwyso prosesau'n gyson, oedd yn gyfrifol am gwynion yn bennaf, gyda chyfran o'r pryderon yn ymwneud â materion y tu allan i gylch gwaith PCGC ac felly oedd yn gofyn am eu cyfeirio at sefydliadau eraill. Yn ystod y flwyddyn, roedd pryderon a dderbyniwyd ynghylch y Gwasanaeth Archwilio Meddygol a swyddogaethau Gofal Sylfaenol yn gyson â'r flwyddyn flaenorol ac yn ymwneud yn bennaf ag oedi wrth gyhoeddi Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth, trosglwyddo cofnodion meddygol ar draws ffiniau, a phrosesu taliadau neu bresgripsiynau. Mae'r Uwch Grŵp Arwain yn derbyn adroddiadau rheolaidd am bryderon a chwynion ym mhob cyfarfod, gan alluogi craffu priodol, trosolwg a chamau rheoli prydlon. Mae'r dull strwythuredig hwn yn rhoi sicrwydd bod themâu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi, eu trin, a'u defnyddio i lywio gwelliannau i wasanaethau a chryfhau perfformiad gweithredol.

Nododd adolygiad o'r pryderon nifer o themâu sy'n codi dro ar ôl tro, sydd wedi bod yn sail i welliannau gwasanaeth wedi'u targedu trwy ddysgu a threfniadau llywodraethu wedi'u cryfhau. Yng nghyd-destun gwelliant parhaus ac yn unol ag egwyddor rhodd cwynion, fe wnaethom barhau i sefydlu mecanweithiau adrodd i gofnodi achosion sylfaenol ac unrhyw wersi a ddysgwyd o bob pryder a gafwyd, a thrafodir y rhain gyda'r Uwch Grŵp Arwain bob mis.

Bu gostyngiad parhaus yn nifer y pryderon ynghylch y gyflogres a gafwyd yn dilyn cyflwyno Polisi Gordaliadau Cymru Gyfan ar 1 Hydref 2024, sef dull cenedlaethol dan arweiniad PCGC, ond rydym yn parhau i weithio ar sicrhau, er bod cywirdeb cyflogres yn gyson dros 99%, y gall achlysuron pan fydd angen adennill gordaliadau effeithio'n sylweddol ar yr unigolion dan sylw. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu i'r gyflogres yn amserol er mwyn atal gordaliadau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni chyfeiriwyd unrhyw bryderon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a chafodd hyn ei ddatrys yn foddhaol. Mae PCGC yn parhau i ymrwymo i ddysgu o adborth a gwella ansawdd ac ymatebolrwydd ei wasanaethau yn barhaus.



## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chydweithio

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi dod i'r amlwg fel gwers hollbwysig i'r Swyddfa Rheoli Trawsnewid (TMO) yn ystod 2025–26, gan ddangos bod trawsnewid llwyddiannus yn dibynnu ar gyfranogiad strwythuredig a pharhaus y rhai yr effeithir arnynt gan newid.

Mae hyn yn cynnwys nodi a chynnwys rhanddeiliaid yn gynnar, datblygu cynlluniau cyfathrebu clir ac wedi eu targedu, llwybrau llywodraethu wedi'u diffinio'n dda, a sefydlu mecanweithiau adborth rheolaidd i sicrhau bod pryderon yn cael eu cofnodi a'u trin yn briodol.

Mae profiad wedi dangos bod ymgysylltiad parhaus drwy gydol y gwaith, yn hytrach nag yn ystod y camau dechreuol neu ar sail untro yn unig, yn ei gwneud yn bosibl i nodi risgiau'n gynnar, yn lleihau tensiynau posibl, ac yn sicrhau cyswllt rhwng bwriad strategol a chyflawniad gweithredol.

Mae cymhwyso'r egwyddorion hyn yn gyson yn cryfhau ymddiriedaeth, yn cefnogi cydweithio effeithiol ar draws PCGC a sefydliadau partner, ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o fabwysiadu newid yn llwyddiannus, gwireddu'r manteision a fwriadwyd, a chyflawni gwelliannau cynaliadwy o fewn amgylchedd gofal iechyd cymhleth.



## Stiwardiaeth Ariannol a Chyflawni Gwerth

Mae PCGC wedi dangos rheolaeth ariannol gadarn drwy gydol 2025–26, gan gynnal cydbwysedd ariannol a chyflawni arbedion a gynlluniwyd. Yn gynnar yn y flwyddyn, adroddwyd am sefyllfa o warged, wedi'i sbarduno gan swyddi gwag yn y gweithlu a mesurau rheoli costau, gyda pherfformiad wedi hynny yn sefydlogi i sefyllfa o adennill costau yn dilyn cyflawni dosraniadau anghylchol sylweddol ac amsugno pwysau ariannu. Hefyd, dychwelodd y sefydliad werth sylweddol i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, gan gynnal perfformiad cryf yn erbyn terfynau gwariant cyfalaf a thargedau perfformiad taliadau.

Fodd bynnag, roedd pwysau ariannol sylweddol parhaus yn amlwg ar draws y system, yn enwedig o fewn Cronfa Risg Cymru, wedi'u sbarduno gan gymhlethdod cynyddol yr achosion, hawliadau gwerth uwch a chyfraniadau cynyddol yn ymwneud â chyfranddaliadau risg. Parhaodd Cronfa Risg Cymru i chwarae rhan genedlaethol hanfodol wrth reoli esgeulustod clinigol a risg, gyda lefelau uchel parhaus o weithgarwch ac amlygiad ariannol drwy gydol y flwyddyn.

Mae gwaith wedi symud ymlaen i gryfhau dysgu sefydliadol a rheoli achosion, gan gynnwys gwell llywodraethu ar Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau a mwy o bwyslais ar gyflwyno data'n brydlon ac ar ansawdd data. Roedd datblygiadau arwyddocaol hefyd yn cynnwys symud ymlaen gyda datrysiadau yn ymwneud â chaniatâd digidol, ymgorffori systemau rheoli pryderon cenedlaethol, a pharatoi ar gyfer gofynion rheoleiddio diwygiedig yn ymwneud â chwynion ac iawndal.

## Rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMs)

Mae Rhaglen TrAMs wedi parhau i fod yn flaenoriaeth strategol bwysig, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud ar draws pob elfen ranbarthol. Mae Radiofferylliaeth y De-ddwyrain wedi symud ymlaen trwy'r cyfnodau adeiladu a dilysu, gyda chynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth fesul cam. Mae Hwb y De-ddwyrain wedi symud ymlaen trwy gymeradwyaeth Achos Busnes Amlinellol i ddylunio manwl a datblygu Achos Busnes Llawn.

Mae cynnydd ar Hwb y De-orllewin wedi bod yn fwy cymhleth, gyda heriau parhaus o ran nodi safleoedd yn effeithio ar amserlenni cyflawni, tra bo gwaith yng Ngogledd Cymru wedi canolbwyntio ar archwilio cyfleoedd i ailddefnyddio seilwaith presennol i wella gwydnwch. Mae trefniadau llywodraethu ar draws y rhaglen wedi'u cryfhau i adlewyrchu cymhlethdod cynyddol a sicrhau trosolwg a rheoli risg effeithiol.

## Gwasanaethau'r Golchdy

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd rhaglen gyfalaf Gwasanaethau'r Golchdy i wella capasiti gweithredol, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd amgylcheddol. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2026 profodd y gwasanaeth nifer digynsail o fethiannau sylweddol ar safleoedd o fewn un wythnos. Roedd hyn yn cynnwys colli Uned Gynhyrchu (LPU) Golchdy Abertawe am saith diwrnod yn dilyn methiant y fasged wasg, colli cynhyrchu am bum awr yn Greenvale oherwydd methiant y lifft dillad budr, a sawl awr o aflonyddwch yn Unedau Cynhyrchu (LPU) Pentre'r Eglwys a Gogledd Cymru o ganlyniad i fethiannau yn y gweithfeydd cynhyrchu ager.

Er gwaethaf y digwyddiadau hyn, lleihawyd yr effaith ar gyflenwad cwsmeriaid trwy ddefnyddio'r stoc oedd ar gael a thrwy drosglwyddo'r cynhyrchu, lle roedd modd, i ffatrïoedd cyfagos. Tynnodd y digwyddiadau hyn sylw at y risgiau gweithredol sy'n gysylltiedig â methiant yn y seilwaith critigol a phwysigrwydd cynnal gwydnwch ar draws Gwasanaeth Golchi Dillad Cymru Gyfan, gan y gallai'r aflonyddwch fod wedi bod yn llawer mwy arwyddocaol ac eang o ran effaith ar barhad y gwasanaeth hebddynt.



# Y Ddyletswydd Ansawdd

*"Diffinnir ansawdd fel diwallu anghenion y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu yn barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy."*

Mae blwyddyn adrodd 2025–2026 yn nodi trydedd flwyddyn lawn gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd gan PCGC yn dilyn ei chyflwyno ym mis Ebrill 2023. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein hymrwymiad parhaus i wreiddio ansawdd ar draws ein portffolio gwasanaethau amrywiol, anghlinigol. Mae'r Ddyletswydd wedi'i hintegreiddio i gynllunio strategol, cyflawni gweithredol a sicrhau perfformiad i gyd-fynd â'n gwerthoedd craidd a'n nodau strategol. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y gwaith o amgylch gwreiddio'r Ddyletswydd ac roedd adrodd yn erbyn y Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn cynnwys:

- Cynllunio a gwneud penderfyniadau o safon;
- Systemau rheoli ansawdd;
- Adroddiadau a ysgogir gan ansawdd;
- Adroddiadau a ysgogir gan ansawdd i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau;
- Rheoli ansawdd a defnyddio data i wella ansawdd;
- Adolygiadau ansawdd allanol, achrediadau a gwobrau; a
- Lleisiau staff.




Mae cyflawniadau allweddol yn cynnwys cynnal yr achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws y sefydliad, cyflawni a chadw achrediadau ISO a rheoleiddio lluosog a gwreiddio egwyddorion ansawdd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP). Mae is-adrannau wedi mabwysiadu Systemau Rheoli Ansawdd teilwredig ac adrodd "bob amser" i sicrhau gwelliant ac atebolrwydd parhaus. Mae'r cwmpas wedi ehangu i gynnwys ansawdd fel llinyn disgwyliedig a chyfartal o fewn y rhaglen adrodd chwarterol, gan ychwanegu unwaith eto at 'adrodd bob amser', sy'n cael ei fesur yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae ymgysylltiad staff wedi bod yn ganolog, gyda hyrwyddwyr ansawdd ym mhob is-adran a fformatau hygyrch fel fideos a blogiau dwyieithog yn cael eu defnyddio i rannu arferion gorau.

Mae PCGC wedi dangos arloesedd mewn adrodd sy'n seiliedig ar ansawdd, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, a mentrau cynaliadwyedd. Mae enghreifftiau yn cynnwys datblygu offer digidol dwyieithog, ymdrechion i ddatgarboneiddio yng ngwasanaethau'r golchdy, a chydweithio cenedlaethol ar adolygiadau marwolaethau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r sefydliad yn parhau i ddefnyddio adolygiadau is-adrannol chwarterol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol i yrru rheoli ansawdd a gwella ansawdd, gan sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel, yn effeithiol, yn effeithlon, yn amserol, yn deg, a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolion.

Gan edrych ymlaen, bydd PCGC yn parhau i wella ei hadroddiadau ansawdd drwy ddangosfyrddau data gwell (mae'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn enghraifft ardderchog o hyn), ymgysylltiad parhaus a hunanasesiadau wedi'u mireinio ac mae'r adrodd i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn parhau i esblygu.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau rôl PCGC yn y gwaith o gefnogi GIG Cymru drwy gyflenwi gwasanaethau anghlinigol o ansawdd uchel a'i hymrwymiad parhaus i ddarparu gwerth, arloesedd, a rhagoriaeth.

Mae'r gwaith o adrodd ar y Ddyletswydd Ansawdd ar gyfer y flwyddyn nesaf eisoes yn cael ei gynllunio, er mwyn cofnodi'r gwaith y mae'r is-adrannau'n ei wneud mewn amser sydd mor agos at amser real â phosibl. Mae hyn yn cysylltu yn dda â'r sicrwydd y bydd y ddyletswydd yn parhau i fod yn fusnes fel arfer i PCGC.

Gallwch ddarllen mwy am sut rydym wedi ymgorffori ansawdd fel sefydliad yn **Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd PCGC ar gyfer 2025-26.**

# Iechyd a Diogelwch

*Ein Nod ar gyfer Iechyd a Diogelwch: Darparu a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau a chreu diwylliant cadarnhaol.*


Mae PCGC yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Mae'n hanfodol bod rheolwyr a staff yn cydweithio i sicrhau y ceir amgylchedd iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae arnom angen gweithlu hynod fedrus, llawn cymhelliant, ymroddedig ac iach. Mae ymgysylltiad staff ac iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth a bydd yn cael ei sicrhau mewn amgylchedd lle mae staff yn cael eu rheoli'n dda a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad. Cyflawnir hyn trwy arweinyddiaeth effeithiol uwch reolwyr, cyfranogiad yr holl staff a sianeli cyfathrebu agored ac ymatebol.

Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyllid yn arwain ar gyfeiriad cyffredinol iechyd a diogelwch ar gyfer PCGC ac, ar y cyd â'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch, mae'n parhau i wella perfformiad trwy fonitro cynnydd, adolygu prosesau a thrafodaethau yng Ngrŵp Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan PCGC.

## Tueddiadau o ran Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch 2025-2026

Yn ystod 2025-2026, mae'r tueddiadau arwyddocaol o ran Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch yn parhau fel a ganlyn:



| Categori Tueddiadau | 2019 - 20 | 2020 - 21 | 2021 - 22 | 2022 - 23 | 2023 - 24 | 2024 - 25 | 2025 - 26 | Tuedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt â neu/Taro gan Wrthrych | 11 | 11 | 26 | 30 | 18 | 16 | 29 | ↑ |
| Trais ac Ymddygiad Ymosodol | 14 | 10 | 10 | 15 | 20 | 11 | 17 | ↑ |
| Codi a Chario | 14 | 12 | 23 | 16 | 16 | 17 | 19 | ↑ |
| Llithro, Baglu a Chwympo | 14 | 10 | 10 | 15 | 6 | 16 | 14 | ↓ |

Gellir gweld gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt yn y categorïau canlynol:

## Llithro, Baglu a Chwympo

- Mae PCGC **yn parhau i gyflawni ei nod** o leihau llithro, baglu a chwympo sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle, gan anelu at ostyngiad o 10% dros ddwy flynedd.
- Mae nifer y digwyddiadau a adroddwyd wedi lleihau dros y blynyddoedd, gan gefnogi nod PCGC o gyflawni gostyngiad o 10% dros ddwy flynedd. Mae hyn yn dynodi cynnydd cadarnhaol a gwell diogelwch yn y gweithle.

Gellir gweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt yn y categorïau canlynol:

## Codi a Chario

- Er gwaethaf y cynnydd bach yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt ar gyfer 2025-2026, mae PCGC **yn parhau i gyflawni ei nod** o leihau digwyddiadau codi a chario sy'n gysylltiedig â gwaith yn y gweithle, gan anelu at ostyngiad o 10% dros ddwy flynedd. Gall hyn roi sicrwydd o welliant.
- Er bod digwyddiadau wedi cynyddu yn 2025-26, mae PCGC yn dal i fod ar y trywydd iawn gyda'i nod hirdymor o leihau digwyddiadau o godi a chario 10% dros ddwy flynedd.

## Cyswllt â neu Daro gan Wrthrych.

- **Nid yw PCGC wedi cyflawni ei nod** o leihau cyswllt â gwrthrych /cael eich taro gan wrthrych sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer pob 100 o weithwyr.

## Trais ac Ymddygiad Ymosodol

- Mae digwyddiadau wedi cynyddu, fodd bynnag, mae PCGC yn annog pobl i adrodd am hyn, yn atgyfnerthu ei neges **DIM ESGUS DROS GAM-DRIN**, ac yn cyfrannu at Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais.

## Llywodraethu Gwybodaeth

Mae Llywodraethu Gwybodaeth (IG) yn parhau i fod yn alluogwr allweddol wrth gefnogi PCGC i reoli gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn effeithiol. Drwy gydol 2025-26, parhaodd y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth i roi canllawiau, hyfforddiant a throsolwg i sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth berthnasol ac arferion gorau. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r gweithgareddau allweddol, y metrigau perfformiad a'r uchafbwyntiau o'r flwyddyn, gan adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i gynnal safonau uchel o gyfrinachedd, tryloywder ac atebolrwydd ar draws y sefydliad.

## Yn 2025/26, cyflawnwyd y gweithgareddau canlynol:

Mynychwyd **12** dosbarth wyneb yn wyneb gan staff gan ddefnyddio Microsoft Teams

Cydymffurfedd cyfartalog o **91%** o ran sgiliau craidd e-ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth ar draws PCGC

**166** o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi'u derbyn

**292** o alwadau ActionPoint wedi'u cofnodi ar blatfform pwrpasol y gwasanaeth

**98%** o gydymffurfedd ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith

Mynychodd **649** o staff sesiwn hyfforddi ystafell ddosbarth Llywodraethu Gwybodaeth

## Mae uchafbwyntiau yn ystod 2024-25 wedi cynnwys:

Hysbysiadau Preifatrwydd a phrotocolau wedi'u hadolygu lle bo'n berthnasol

Datblygwyd cyfathrebiadau rheolaidd i roi diweddariadau ar bob pwnc Llywodraethu Gwybodaeth

Niferoedd isel o dorri rheolau Llywodraethu Gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn

Sicrwydd sylweddol gyda'r pecyn cymorth asesu Llywodraethu Gwybodaeth blynyddol

Lansiwyd canllawiau a phrotocolau Llywodraethu Gwybodaeth newydd

Rhoddwyd cyngor ynghylch Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd

Cynllun gwaith wedi'i gwblhau'n llawn

Cynhaliwyd cyfarfodydd Llywodraethu Gwybodaeth mewnol bob chwarter

# Y Gymraeg

## Adroddiad Sicrwydd a Chydymffurfedd y Gymraeg 2025-26:

Mae PCGC yn parhau â'i ymrwymiad i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yn y gwasanaethau a roddir i'r cyhoedd a sefydliadau partner y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 7] 2018.

Adroddir ar waith PCGC mewn perthynas â chyflenwi a pherfformiad y Gymraeg i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Gymraeg.

Mae ein gwaith yn cael ei sbarduno i raddau helaeth gan Bennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfedd, sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae Pennaeth Gwasanaethau'r Gymraeg a Chydymffurfedd yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr, yr Uwch Dîm Arwain a phob is-adran a gwasanaeth ar draws PCGC.

Mae Uned Iaith Gymraeg wedi'i sefydlu i gefnogi ein his-adrannau a'n gwasanaethau gyda gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, yn ogystal â rhoi cyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o gynllunio'r modd y darperir gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

At ddibenion archwilio a chydymffurfedd, rydym wedi sefydlu proses hunanasesu i fonitro ein statws cydymffurfedd â Safonau a Chod Ymarfer y Gymraeg ac i fesur ein gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg sy'n gyfartal â gwasanaethau Saesneg. Mae'r broses hon yn digwydd ddwywaith y flwyddyn lle cynhelir yr asesiad ym mlwyddyn 1 a ddilynir gan ddatblygu cynlluniau gwella lleol, ac yna gweithredu'r cynllun gwella ym mlwyddyn 2. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i ddarparu sicrwydd a gwybodaeth gywir am ein lefelau cydymffurfio.

Roedd ein statws cydymffurfedd cyffredinol ar ddiwedd mis Mawrth 2026 fel a ganlyn:

| Safonau | Lefel cydymffurfedd |
|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | Lefel Ganolig i Uchel o Gydymffurfedd |
| Safonau Llunio Polisi | Lefel Ganolig i Uchel o Gydymffurfedd |
| Safonau Gweithredu | Lefel Ganolig i Uchel o Gydymffurfedd |
| Safonau Cadw Cofnodion | Lefel Uchel o Gydymffurfedd |
| Safonau Atodol (lle bydd y Comisiynydd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol pan fo angen). | Lefel Uchel o Gydymffurfedd |

Yn ystod 2025-26 rydym wedi adolygu'r broses o sut y gellir asesu contractau caffael wedi'u hamserlennu i gynnwys gofynion o ran gwasanaeth a chyflenwi yn y Gymraeg ym manyleb y Dogfennau Gwahoddiad i Dendro yn ogystal ag offeryn asesu i sefydlu a oes angen cyhoeddi'r Dogfennau Tendr yn y Gymraeg.


Rydym wedi bod yn datblygu Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg newydd yn ystod 2025-26 i sicrhau ein bod yn cynyddu ein cydymffurfedd i Lefel Uchel o Gydymffurfedd yn 2026-27 ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae hyn yn dilyn seminarau a chynadleddau a fynychwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Cafodd ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei adolygu a'i wella yn 2024-25, ac o ganlyniad mae'r asesiadau'n fwy ystyrlon a chadarn yn ein hystyriaethau o'r Gymraeg y tu hwnt i arfer cyfieithu. Mae ystyried pobl, unigolion a chyflenwi gwasanaethau yn cael eu heffeithio gan y Gymraeg yn ein prosesau gwneud penderfyniadau sy'n mynd y tu hwnt i ofynion cyfieithu yn unig. Rydym yn gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ffeithiau a strategaethau allweddol ac nid ar dybiaethau a barn. Yn ystod 2025-26: Cynhaliwyd 14 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

## Sgiliau'r Gymraeg ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru


Mae gofyniad gorfodol i bob aelod staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg yn y System Cofnodion Staff Electronig.

Yn 2024-25 roedd canran y staff a oedd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg (siarad a deall, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg) fel a ganlyn:



Yn ystod 2025-26 gwelsom ychydig o newid mewn sgiliau Cymraeg:

## % of Sgiliau Cymraeg Staff PCGC 2025-26





## Staff sy'n Dysgu Cymraeg 2025-26

Rydym yn hyrwyddo ac yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'n staff fel sy'n ofynnol gan Safonau 99, 100 a 101. Gostyngodd nifer y staff oedd yn dysgu yn 2025-26 o 73 yn 2024-25 i 62. Mae'r gostyngiad oherwydd nad yw staff yn dymuno symud ymlaen ymhellach neu'n gadael y sefydliad.

| Lefel Dysgu CEFR | Nifer y staff wedi cofrestru ar gyrsiau |
|---|---|
| Lefel Mynediad 1 (A1) | 16 |
| Lefel Mynediad 2 (A1) | 12 |
| Lefel Sylfaen 1 (A2) | 13 |
| Lefel Sylfaen 2 (A2) | 0 |
| Lefel Ganolradd 1 (B1) | 5 |
| Lefel Ganolradd 2 (B1) | 4 |
| Lefel Uwch 1, 2 a 3 (B2) | 9 |
| Hyfedredd (C1/C2) | 3 |
| **Cyfanswm** | **62** |

## Gwasanaethau Cyfieithu a'r System Cof Cyfieithu a Rennir

**Gwasanaethau Cyfieithu i gefnogi Sefydliadau GIG Cymru yn ystod 2025-2026**




Yn ystod y flwyddyn rydym wedi caffael system cof cyfieithu a rennir ar gyfer y sefydliadau canlynol yn system GIG Cymru:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20% | PCGC (NWSSP) | 7.5% | YGIGPF (VUNST) |
| 25% | Iechyd Cyhoeddus Cymru | 15% | BIPCF (CAVUHB) |
| 7.5% | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 16% | BIPBA (SBUHB) |
| 4.5% | Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | 4.5% | BIAP (PTHB) |

Bydd hyn yn ei dro yn lleihau'r angen i lawer o sefydliadau gyfieithu dogfennau sydd wedi'u cyfieithu'n barod. Mae'r system yn storio dogfennau blaenorol i osgoi dyblygu a chostau cylchol.

## Swyddi Gwag wedi'u Hasesu a'u Hysbysebu

Asesodd a hysbysebodd PCGC y nifer canlynol o swyddi gwag yn ystod 2025-26:

| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel: | |
|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 6 |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 373 |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 |
| Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 0 |
| **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2025 - 31/03/2026** | **379** |

# Cyfathrebu

Roedd 2025-26 yn un brysur a llwyddiannus i Dîm Cyfathrebu PCGC. Fe wnaethon ni lansio ein Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu a datblygu canllawiau a phrotocolau ategol er mwyn gallu ei weithredu'n effeithiol. Mae'r Cynllun yn sefydlu blaenoriaethau clir ac yn nodi cwmpas y gwaith y gall y gwasanaeth ei ddarparu, gan sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar weithgarwch sy'n cyflawni'r effaith fwyaf.

## Uchafbwyntiau allweddol cyfathrebu

- Datblygu a gweithredu'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu, a chanllawiau i'w gefnogi, gan gynnwys canllawiau ar weithio gyda'r cyfryngau.
- Am y tro cyntaf, bu PCGC yn gweithio gydag ITV Cymru yn ystod mis Awst i adrodd hanes sut mae Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn caffael, yn cyflenwi ac yn dosbarthu brechiadau ffliw i GIG Cymru.
- Presenoldeb cryfach ar LinkedIn trwy gynyddu cynnwys rhagweithiol, gan arwain at dwf parhaus, fel yr adlewyrchir yn y "Flwyddyn mewn Ffigurau" isod.
- Cefnogi cyfathrebu ynghylch ymweliadau allweddol â safleoedd PCGC. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfathrebu ar gyfer ymweliadau gan Brif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Blynyddoedd Cynnar, Jaqueline Totterdell, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, Jeremy Miles.
- Lansiwyd cylchlythyr staff wythnosol dwyieithog mewn fformat sy'n gweithio i staff sy'n gweithio wrth ddesg a'r rhai sy'n gweithio mewn rolau nad ydynt yn rhai digidol fel ein golchdai a'n gwasanaethau cludo nwyddau. Mae'r cylchlythyr hwn wedi lleihau traffig e-bost i'n staff wrth ddesg, gan helpu i bontio'r bwlch cyfathrebu rhwng cydweithwyr sy'n gweithio'n ddigidol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.
- Cyflawni gwaith dylunio cymhleth ar gyfer prosiectau gan gynnwys ein Cynllun Tymor Canolig Integredig a'n Hadolygiad Blynyddol.
- Ail-lansiwyd tudalen SharePoint Cyfathrebu, gan wella mynediad staff at wybodaeth a thempledi brand, gyda chyfres estynedig o dempledi bellach ar gael ar gyfer allbynnau allweddol fel cyflwyniadau ac adroddiadau.
- Datblygu cynllun parhad busnes y Tîm Cyfathrebu.

## Ein blwyddyn mewn rhifau a mewnwelediadau allweddol (cyfnod adrodd Ebrill 2025 i Fawrth 2026)

- 91 o geisiadau gan y cyfryngau
- 8,953 o ddilynwyr LinkedIn, cynnydd o 1,398 (15%). Mae hyn yn cymharu â chynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 13.2% gyda'r flwyddyn adrodd flaenorol yn dangos tuedd ar i fyny.
- Cafodd cynnwys LinkedIn PCGC fwy na 98,000 o ymddangosiadau o'i gymharu â mwy na 50,000 o ymddangosiadau yn 2024-2025, cynnydd o 96%. Mae hyn yn dangos bod ein ffocws ar bostio mwy cyson o ansawdd uchel a defnyddio dadansoddeg ar gyfer ein dull yn gweithio.
- Cafodd gwefan PCGC 402,001 o ymweliadau â'i thudalennau yn ystod y flwyddyn gyda chyfradd ymgysylltu gyfartalog o 1 munud a 7 eiliad. Y tudalennau mwyaf poblogaidd a welwyd ar wefan PCGC oedd swyddi gwag cyfredol, gwasanaethau dyfarniadau myfyrwyr a sut ydw i'n gwneud cais am fwrsariaeth.

  **Cymerwyd y data o 30 Ebrill 2025 i 28 Ebrill 2026 oherwydd argaeledd data LinkedIn.*



# 5.
# Pobl a Diwylliant

# Pobl a Diwylliant

Yn ystod 2025-26, parhaodd ein gwaith Pobl a Diwylliant i ganolbwyntio ar greu sefydliad cynhwysol a thosturiol sy'n perfformio'n dda lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ffynnu. Ar draws iechyd a lles, cydraddoldeb, dysgu a datblygu a buddion staff, rydym wedi parhau i fuddsoddi ym mhrofiad ein pobl ac yn y diwylliant sy'n sail i gyflenwi gwasanaethau ar draws PCGC.

Adlewyrchwyd y gwaith hwn hefyd mewn set ehangach o themâu pobl a diwylliant ar draws PCGC, gan gynnwys arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol, cryfhau llais y staff a rhwydweithiau staff, a chreu mannau diogel i gydweithwyr leisio barn trwy fentrau fel Codi Llais heb Ofn a Gweithio'n Hyderus. Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein dull gwerthuso ac AGDP (PADR), cefnogi diwylliant gweithio ystwyth cadarnhaol, a buddsoddi mewn dysgu, datblygu arweinyddiaeth a llwybrau gyrfaoedd cynnar. Ochr yn ochr â gweithgaredd recriwtio a chadw staff, cydnabyddiaeth a dathliad, a chefnogaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol wedi'i theilwra i is-adrannau, mae'r datblygiadau hyn wedi helpu i gryfhau diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a'u bod yn gallu cyfrannu at welliant parhaus.

Rhoddodd Arolwg Staff GIG Cymru 2025 gyfle pwysig i gydweithwyr ar draws PCGC rannu eu profiadau o weithio yn y sefydliad ac i helpu i lunio gweithgaredd gwella yn y dyfodol. Mae adborth o'r arolwg wedi llywio dadansoddiad pellach ar lefel sefydliadol ac is-adrannol, gyda chynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i ymateb i themâu a godwyd gan staff ac i gefnogi gwelliant parhaus yn yr amgylchedd gwaith. Mae hyn hefyd wedi ychwanegu at y gwaith ehangach sydd eisoes ar y gweill drwy'r Cynllun Gweithredu Cynhwysol ar gyfer Diwylliant, gan helpu i sicrhau bod llais y staff yn parhau i fod yn ganolog i sut rydym yn datblygu ein diwylliant, yn gwella profiad y staff ac yn cryfhau ymgysylltiad ar draws PCGC.



## Iechyd a Llesiant

Fe wnaethon ni ddathlu cynhadledd Iechyd a Llesiant llwyddiannus arall ar 25 Chwefror 2026, gyda thua 350 o fynychwyr ac amrywiaeth o siaradwyr i gefnogi gwahanol elfennau iechyd a llesiant yn PCGC. Roedd yr agenda yn cynnwys Cyfarwyddwr Meddygol PCGC, Martin Edwards, a gyflwynodd sesiwn ar dueddiadau iechyd a llesiant yn y cyfryngau cymdeithasol, ac a gyflwynodd ganlyniadau Her y Camau gyntaf PCGC.

Hefyd, rhoddodd Anthony Bennett sgwrs ysgogiadol ar wydnwch ac iechyd meddwl, ac yna sesiwn ymwybyddiaeth ar ddiwylliant y byddar a gwers i'n cyflwyno i Iaith Arwyddion Prydain a gyflwynwyd gan Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain. Mae'r diwrnod wedi derbyn adborth cadarnhaol gyda chynrychiolaeth dda ar draws is-adrannau PCGC.




Fe wnaethon ni ryddhau Canllawiau Menopos a Mislif ym mis Hydref 2025 i gefnogi unigolion a rheolwyr i ymdrin ag iechyd mislif yn y gweithle. Mae'r canllawiau hyn wedi cael derbyniad da ac fe'u cefnogir gan gynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu ein Caffi Menopos yn ogystal â sesiynau addysg pwrpasol ar gyfer rheolwyr gwrywaidd yn y gweithle.

Fe wnaethon ni barhau i hyfforddi gweithwyr ar draws is-adrannau mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac mae gennym ni bellach gyfanswm o 32 o bobl wedi'u hyfforddi i gefnogi sgyrsiau cychwynnol. Nod y mentrau hyn yw cefnogi pobl i ddod i'r gwaith a lleihau'r risg o absenoldeb salwch hirdymor.

Roedd y mentrau'n cynnwys cefnogaeth barhaus drwy rwydwaith yr Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant a Grŵp Partneriaeth y Staff, gan helpu i hyrwyddo ymgysylltiad lleol a pherchnogaeth a rennir o flaenoriaethau llesiant ar draws PCGC. Fe wnaethon ni hefyd ddefnyddio ymgyrchoedd, cyfathrebu rheolaidd a gweithgareddau ymwybyddiaeth â thema i dynnu sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i staff, annog ymyrraeth gynnar a chyfeirio at gefnogaeth, a chreu mwy o gyfleoedd i gydweithwyr ymgysylltu â llesiant mewn ffyrdd a oedd yn hygyrch, yn ymarferol ac yn berthnasol iddyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth i reolwyr gael sgyrsiau am lesiant yn hyderus, pwyslais parhaus ar gefnogaeth gynhwysol ar gyfer llesiant, a chydnabyddiaeth i'r ffaith fod gweithio hybrid ac ystwyth yn alluogwr pwysig ar gyfer cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a llesiant y staff. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais parhaus ar gefnogaeth gynhwysol ar gyfer llesiant, gan gydnabod bod staff yn profi iechyd a llesiant mewn gwahanol ffyrdd ac efallai y bydd angen gwahanol fathau o gefnogaeth arnynt ar wahanol adegau.

Ochr yn ochr â'r mentrau penodol hyn, fe wnaethom barhau i hyrwyddo dull rhagweithiol o ymdrin ag iechyd a llesiant staff drwy gydol y flwyddyn drwy weithgarwch codi ymwybyddiaeth, cyfathrebu rheolaidd a chyfleoedd i gydweithwyr gael mynediad at gymorth yn gynnar. Ein ffocws fu normaleiddio sgyrsiau am iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant ehangach, wrth gefnogi rheolwyr hefyd i ymateb yn hyderus ac yn dosturiol i anghenion eu timau.

Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i greu diwylliant gweithle iach lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn gallu ffynnu. Drwy gyfuno digwyddiadau proffil uchel â chefnogaeth ymarferol drwy gydol y flwyddyn, mae PCGC wedi parhau i gryfhau'r sylfeini ar gyfer gweithlu gwydn a diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn ystod 2025-26.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i wella ymwybyddiaeth o gefnogaeth, annog pobl i geisio cymorth yn gynharach a chryfhau hyder staff i gael sgyrsiau agored am iechyd a llesiant. Gallai hyn wella profiad y staff, cefnogi presenoldeb yn y gwaith, lleihau'r risg

o bryderon yn gwaethygu i absenoldeb tymor hwy, a helpu rheolwyr i ymateb yn gynharach ac yn fwy effeithiol i faterion llesiant. Yn ei dro, mae hyn yn cyfrannu at weithlu mwy tosturiol a gwydn ac yn helpu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae PCGC yn parhau ar ei thaith i greu diwylliant cynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn gweithio i ddileu gwahaniaethu. Mae PCGC yn sicrhau cydymffurfedd â'i dyletswyddau deddfwriaethol ac yn cysylltu â'n camau gweithredu a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae PCGC yn parhau i chwarae rhan flaenllaw mewn ymdrechion cydraddoldeb cenedlaethol, gan gyfrannu at Grŵp Arwain Cydraddoldeb GIG Cymru ac is-grwpiau sy'n gweithio ar feysydd datblygu penodol ledled Cymru.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn parhau i gefnogi gwaith parhaus o greu diwylliannau cynhwysol, ynghyd â'r Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant a rhwydweithiau allweddol eraill. Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar draws is-adrannau, yn ogystal â hyfforddiant pwrpasol gan gynnwys Llywio Sgyrsiau Sensitif, i alluogi addysg ar wahaniaethu a gwahanol ddiwylliannau, a hyrwyddo newid mewn dull ar draws y sefydliad.  Lansiodd PCGC yr Ymgyrch Cynhwysiant Diogel hefyd a greodd gyfleoedd i unigolion ofyn cwestiynau mewn amgylchedd diogel heb gael eu barnu. Defnyddiwyd y cwestiynau o'r ymgyrch hon i addysgu cydweithwyr ymhellach ar draws PCGC. Mae rheolaeth PCGC o broses yr Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau i ystyried gofynion cyfreithiol yn ogystal â newidiadau i symleiddio prosesau lle bo modd. Bydd mwy o ganllawiau ac addysg yn cael eu datblygu i gefnogi hyn yn y dyfodol. Mae data cydraddoldeb yn parhau i fod yn rhan bwysig o ddeall diwylliant PCGC, ac mae datblygu Dangosfwrdd newydd ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn galluogi'r is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Uwch Arweinwyr eraill i ystyried eu cyfansoddiad demograffig wrth wneud penderfyniadau. Mae'r sefydliad yn parhau i feithrin ymddiriedaeth gyda gweithwyr i sicrhau bod pobl yn gyfforddus yn cwblhau eu data, gan fod yn dryloyw ynglŷn â pham rydym yn gofyn a sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio.

Yn 2026, fe wnaeth Llywodraeth Cymru integreiddio Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES) i adroddiad croestoriadol sy'n ystyried pob agwedd ar hunaniaeth, sef Safon Cydraddoldeb y Gweithlu (WES).

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cynrychiolaeth ar draws y sefydliad, recriwtio, datblygu a meysydd eraill ar gyfer pob agwedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn nid yn unig yn galluogi'r sefydliad i adolygu meysydd llwyddiant a gwelliant ond hefyd i ddeall agwedd groestoriadol teithiau unigol.



Bydd PCGC yn defnyddio'r data hwn pan fydd ar gael i lywio Cynllun Cydraddoldeb Strategol PCGC a diffinio camau gweithredu penodol i wella lle bo angen.

Mae'r gwaith hwn yn helpu i greu amgylchedd gwaith tecach a mwy cynhwysol drwy wella ymwybyddiaeth, cefnogi gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a chryfhau dealltwriaeth y sefydliad o brofiad a chynrychiolaeth staff.

Mae'r manteision i staff yn cynnwys mwy o hyder bod materion cydraddoldeb yn cael eu cydnabod a'u datrys, polisïau a phrosesau mwy cynhwysol, a chyfleoedd gwell i gyfrannu a gwneud cynnydd.

Mae hefyd yn helpu i liniaru risgiau sy'n ymwneud â gwahaniaethu, anghydraddoldeb, profiad gwael i staff a gwneud penderfyniadau gwan drwy sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u gwreiddio'n well ar draws y sefydliad.

## Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol

Datblygodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru Gynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol cynhwysfawr ar gyfer 2025–2027, sy'n ystyried camau gweithredu o wahanol ffrydiau gwaith ar draws PCGC gan gynnwys gofynion gan Lywodraeth Cymru.

Rydym bellach wedi bod yn y cynllun ers blwyddyn ac wedi gallu cyflawni'r canlynol ers 2025:

- Sioeau Teithiol Eich Cefnogi Chi ar draws safleoedd, gan dynnu sylw at gyfleoedd a chynnig cefnogaeth.
- Cyflwyno rhaglen Arweinwyr y Dyfodol gyda swyddi wedi'u neilltuo ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Cyflwynwyd dull newydd o wneud arfarniadau blynyddol.
- Lansiwyd hyfforddiant ar Ddiwylliannau Tosturiol.
- Cyflwynwyd hyfforddiant Codi Llais heb Ofn, a gweithredwyd a hyrwyddwyd y platfform Gweithio'n Hyderus.

Rydym yn parhau i weithio drwy'r cynllun a chyflawni camau gweithredu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant PCGC.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i dryloywder ar y cynllun hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr am yr hyn rydym yn ei wneud i'w cefnogi a gwella amgylcheddau gwaith.

Mae'r Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol yn rhoi llwybr cliriach o uchelgais i gyflawniad drwy drosi blaenoriaethau diwylliannol yn gamau ymarferol y gall staff eu gweld a'u profi.






Gall hyn helpu i wella diogelwch seicolegol, cynhwysiant, hyder mewn arweinyddiaeth a mynediad at gyfleoedd datblygu, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae hefyd yn helpu i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio, rhwystrau i godi llais, profiad staff anghyson a diffyg dilyniant sefydliadol ar ymrwymiadau diwylliannol, wrth gefnogi gweithle mwy agored, tosturiol ac atebol.

## Dysgu a Datblygu

Mae Dysgu a Datblygu yn parhau i fod yn ffocws canolog i ni yn PCGC, gyda phwyslais cryf ar greu cyfleoedd cynhwysol, hygyrch ac effeithiol i'n pobl i gyd. Yn 2025-26, fe wnaethom gynnal ein Dadansoddiad Blynyddol o Anghenion Hyfforddi gyda phob is-adran i sicrhau bod ein datblygiad yn cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol a dyheadau unigol. Nododd y dadansoddiad dair blaenoriaeth gorfforaethol o fewn Dysgu a Datblygu: Parhau â Mynediad at Gymwysterau a Ariennir, Gallu o ran Sgiliau Digidol a Datblygu Arweinyddiaeth.

Er mwyn deall ein sgiliau gallu digidol yn well, rydym wedi ymgysylltu â staff ac wedi ymgorffori Adolygiad Gallu Digidol GIG Cymru yn y broses Asesu.

Roedd y data a oedd ar gael i ni yn ein galluogi i ddatblygu ein tudalen gymorth Sgiliau Digidol ar-lein, gan wasanaethu fel offeryn cefnogol i'n pobl gael mynediad at ddysgu ar alw i ddatblygu eu sgiliau digidol. Dros amser, bydd y dysgu sydd ar gael yn helpu staff i addasu i dechnolegau sy'n esblygu ac amgylcheddau gwaith hybrid.

Mae ystod eang o gyrsiau hyfforddi mewnol, ynghyd â disgrifiadau manwl a dyddiadau ac amseroedd wedi'u hamserlennu, wedi sicrhau bod dysgu'n berthnasol ac yn brydlon. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, gan gynnig cyfres o raglenni fel:

- Arweinwyr y Dyfodol
- Darpar Arweinwyr
- Rhaglen Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac Arloesedd
- Diwylliannau Tosturiol
- Sut i fod yn Arweinydd Cynhwysol
- Ymsefydlu ar gyfer Arweinwyr
- Sesiynau Coffi a Sgwrs
- Cyfleoedd Arwain Ehangach

Mae'r tabl isod yn crynhoi cyfranogiad staff ar draws rhaglenni allweddol yn ystod 2025–26:

| Dosbarthiadau Hyfforddi | Nifer y staff sy'n mynychu |
|---|---|
| Hyfforddiant i Ddarpar Reolwyr | 73 |
| Coffi a Sgyrsiau | 62 |
| Modiwlau Diwylliant Tosturiol 1 a 2 | 66 |
| Arweinwyr y Dyfodol | 4 |
| Carfan Hanfodion Arweinyddiaeth y Rhaglen Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac Arloesi | 16 |
| Carfan Strategol y Rhaglen Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac Arloesi | 14 |
| Ymsefydlu i Reolwyr | 30 |
| Hyfforddiant Arfarnu Perfformiad | 31 |
| Sgwrs Gwerthfawrogi Perfformiad a Datblygiad (PADR) | 171 |
| **Cyfanswm ymgysylltiadau â staff** | **467** |

Drwy ystod o opsiynau addysg a datblygu am ddim ac am gost isel, gan gynnwys cymwysterau wedi'u hariannu, rydym wedi cefnogi staff i fynd ar drywydd dysgu ffurfiol heb rwystrau ariannol. Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag Is-adrannau a staff i'w helpu i nodi'r dysgu cywir ar gyfer eu datblygiad personol, ac anghenion y sefydliad.

Mae PCGC wedi bod yn falch o gefnogi dau gynllun pwysig i raddedigion; Rhaglen Graddedigion Rheoli Cyffredinol Cymru Gyfan, a gaiff ei lletya gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a'r Cynllun Graddedigion Cyllid, a gaiff ei letya gan yr Academi Gyllid. Mae'r rhaglenni hyn wedi darparu llwybrau strwythuredig i yrfaoedd yn y GIG i raddedigion dawnus ledled Cymru. Yn 2025-26, fe wnaethom gynnal lleoliadau i raddedigion drwy'r ddau gynllun.

Hefyd, rydym wedi cymryd camau breision ymlaen o ran ehangu mynediad at yrfaoedd yn y GIG drwy fentrau fel Cynllun Rhwydwaith 75, sy'n cyfuno astudiaethau academaidd â dysgu seiliedig ar waith, ac amrywiaeth o brentisiaethau ar draws Is-adrannau. Drwy Rwydwaith Gyrfaoedd Cynnar PCGC, fe wnaethom ymgysylltu â chymunedau lleol ledled Cymru mewn 30 o ddigwyddiadau, gan arddangos yr amrywiaeth o rolau a chyfleoedd sydd ar gael yn PCGC. Yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, byddwn yn casglu data i ddeall effaith ein hymrwymiad a'n hymgysylltiad yn well. Yn ogystal, rydym yn parhau i gynnig lleoliadau profiad gwaith i gefnogi unigolion sy'n awyddus i gael profiad ymarferol ac archwilio opsiynau gyrfa o fewn PCGC.

Yn dilyn adborth o Arolwg Staff GIG Cymru, yn ogystal ag ymgysylltu'n barhaus â'n staff, yn 2025, fe wnaethom adolygu a diweddaru ein ffurflen AGDP (PADR) a'r canllawiau cysylltiedig.

Mae ein ffurflen newydd wedi'i datblygu i gefnogi cydweithwyr i gael sgyrsiau datblygu rheolaidd a pharhaus drwy gydol y flwyddyn, lle gallant adolygu'r cynnydd ac addasu blaenoriaethau ac amcanion yn rheolaidd. Rydym yn parhau i ymgysylltu â staff ynghylch y dull a'r ffurflen newydd a byddwn yn cynnal adolygiad effaith llawn yn 2026 i alluogi gwelliant parhaus.

Mae'r mentrau hyn wedi helpu i feithrin talent newydd, ymgorffori arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar werthoedd, a hyrwyddo meddwl strategol ar draws y sefydliad. Mae ein gweminarau rheolaidd wedi rhoi cyfleoedd dysgu hyblyg ar bynciau allweddol, gan alluogi staff i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol wrth eu pwysau. Mae'r sesiynau hyn wedi cyd-fynd â'n strategaeth ddysgu ehangach ac wedi cefnogi twf parhaus ar draws PCGC.

Mae'r gweithgareddau dysgu a datblygu hyn yn helpu i feithrin y sgiliau, yr hyder a'r gallu o ran arweinyddiaeth sydd eu hangen i gefnogi twf unigol a pherfformiad sefydliadol. I staff, gall hyn wella mynediad at ddatblygiad, dilyniant gyrfa a pharodrwydd i addasu i rolau, technolegau a ffyrdd newydd o weithio. I'r sefydliad, mae'n helpu i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau sgiliau, llwybrau arweinyddiaeth cyfyngedig, cynllunio gwael ar gyfer olyniaeth a llai o wydnwch yn y gweithlu, wrth gefnogi'r gwaith o gadw staff, datblygu talent a gwelliant parhaus.






# Cynllun Buddion Staff


Mae PCGC yn parhau i gefnogi lles y gweithlu, gwydnwch ariannol a chynaliadwyedd trwy ystod o gynlluniau buddion staff a roddir ar sail Cymru gyfan. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnig opsiynau hygyrch a chost-effeithiol i staff wrth gefnogi gwerth sefydliadol ac amcanion ehangach GIG Cymru.

O fewn Tîm Buddion Staff PCGC, rydym yn cynnig y cynlluniau canlynol i staff:

- **Cynllun Prydlesu Cerbydau i Staff:** Cafodd hwn ei gyflwyno mewn partneriaeth ag NHS Fleet Solutions a'i gynllunio i roi'r opsiwn i holl staff cymwys PCGC gael mynediad at gerbydau o'u dewis am brisiau cystadleuol iawn, tra ar yr un pryd yn rhoi arbedion i'r sefydliad a fydd yn cefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.
- **Benthyciadau a Ad-delir Trwy Gyflog:** Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy, fel dewis fforddiadwy arall yn lle cardiau credyd a gorddrafftiau, ac mae'n fwy tebygol na banciau o dderbyn pobl i'r cynllun. Gallai hefyd gael ei ddefnyddio i dalu am gost annisgwyl neu gymorth i gyflawni nodau ariannol tymor hir.
- **Cynllun Cyfarpar Electronig yn y Cartref:** Caiff ei redeg ar y cyd â Home Electronic Solutions a'i fwriad yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC brynu eitemau electronig o'u dewis ar gyfer y cartref am bris cystadleuol iawn o Currys/PCWorld, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Nid oes angen rhoi blaendal ac nid yw'r costau'n newid trwy'r holl gyfnod ad-dalu.
- **Cynllun Seiclo i'r Gwaith:** Mae hwn yn cynnig cyfle gwych i staff arbed arian ar feiciau ac offer beicio wrth hyrwyddo cymudo iachach a mwy cynaliadwy. Drwy'r cynnig hwn, gall gweithwyr ledaenu cost beic newydd dros daliadau misol, gan ei gwneud hi'n haws nag erioed i gofleidio teithio llesol, gan gefnogi ymhellach ymrwymiad GIG Cymru i lesiant staff a gweithleoedd mwy gwyrdd ac iach.

Nodir trosolwg o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol isod. Lle mae metrigau manwl ar gael, gellir ymgorffori'r rhain i roi sicrwydd ychwanegol am y niferoedd sy'n cael eu defnyddio, y gwerth a gyflawnwyd a'r cyfraniad at ganlyniadau llesiant a chynaliadwyedd. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn parhau i gynnig manteision pendant i staff wrth gefnogi blaenoriaethau sefydliadol, gan gynnwys llesiant y gweithlu, cynhwysiant ariannol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

## Cynllun Seiclo i'r Gwaith



**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**
(Ymuno Mehefin 2025)
(55 o archebion) | £83,491

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
(70 o archebion)
£145,066

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru**
(15 o archebion)
£17,667

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
(28 o archebion)
£46,079

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**
(53 o archebion)
£107,470

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
(106 o archebion)
£188,176

**Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**
(15 o archebion)
£24,598


**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**
(44 o archebion)
£76,237

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**
(12 o archebion)
£24,416

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
(Ymuno Mai 2023)
(29 o archebion)
£47,222

**Cyfanswm**
**427 o archebion | £760,422**

## Cynllun Cyfarpar Electronig yn y Cartref



**Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**
(47 o archebion) | £28,648

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**
(Ymuno Ebrill 2024)
(260 o archebion) | £163,964

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** (Ymuno Awst 2023)
(68 o archebion) | £45,173

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**
(162 o archebion) £106,853

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
(Ymuno Ebrill 2025)
(294 o archebion) | £157,586

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru**
(Yn gynnwys yn ffigurau Felindre hyd at fis Mawrth 2021)
(88 o archebion) | £56,320

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**
(351 o archebion)
£218,144

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
(Ymuno Awst 2023)
(444 o archebion) | £286,162

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**
(532 o archebion) | £325,836

**Cyfanswm**
**2246 o archebion | £1,388,686**

## Cynllun Prydlesu Cerbydau i Staff

| | Trydanol | Hybrid Gweithredol | Petrol Gweithredol | Cerbydau Cynllun Gweithredol |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 835 | 200 | 25 | 1060 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | 822 | 218 | 40 | 1080 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | 716 | 206 | 42 | 964 |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 123 | 28 | 4 | 155 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | 62 | 15 | 2 | 79 |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | 280 | 79 | 1 | 360 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 88 | 25 | 7 | 120 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 137 | 33 | 4 | 174 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 751 | 225 | 48 | 1024 |
| Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | 107 | 28 | 3 | 138 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 394 | 100 | 12 | 506 |
| Cyfanswm | 4315 | 957 | 188 | 5660 |



# 6.
# Sut Rydym yn Creu Dyfodol Cynaliadwy

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn nodi sut rydym yn darparu gwerth, arloesedd a rhagoriaeth trwy bartneriaeth ar draws ein holl wasanaethau, wrth ymgorffori gofynion polisi allweddol ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio egwyddorion Cymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal ag ymateb i adolygiad y Grŵp Gweithredu Gweinidogol i gefnogi GIG Cymru i gyflawni ei argymhellion. Drwy'r dull hwn, rydym wedi cysylltu ein hamcanion llesiant â'n blaenoriaethau strategol fel eu bod wedi'u gwreiddio ar draws darparu gwasanaethau, datblygu'r gweithlu a chynllunio sefydliadol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i weithlu cefnogol a gwydn ac i ansawdd a chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarparwn.





Rydym yn parhau i chwarae rhan flaenllaw wrth hyrwyddo blaenoriaethau trawslywodraethol o fewn GIG Cymru, gan gynnwys datgarboneiddio a newid hinsawdd, cydraddoldeb a gwrth-hiliaeth, cefnogaeth i'r Gymraeg a gwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhopeth a wnawn. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dangos sut mae'r blaenoriaethau hyn yn cael eu hintegreiddio drwy gaffael cynaliadwy, arferion gweithlu cynhwysol, cefnogaeth ragweithiol i'r Gymraeg a gweithio'n gyfrifol mewn partneriaeth. Mae gwreiddio'r pum ffordd o weithio yn helpu i sicrhau ein bod yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol heb beryglu anghenion y presennol, gan gryfhau trefniadau llywodraethu sy'n gwella llesiant diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy egwyddor datblygu cynaliadwy. Ochr yn ochr â'r dull hwn mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a hyrwyddo'r economi sylfaenol yng Nghymru, gan gydnabod bod yr uchelgeisiau hyn yn cysylltu'n agos â gwydnwch hirdymor a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy.

Mae'r dull hwn wedi'i gefnogi gan y Ddyletswydd Ansawdd, achrediadau allanol a diwylliant o welliant parhaus, gan helpu i gefnogi gwasanaethau diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i gyflymu'r broses o gyflwyno atebion digidol mewn meysydd fel y gyflogres, Scan4Safety a chofnodion meddygol digidol i wella effeithlonrwydd a moderneiddio gwasanaethau. Mae datgarboneiddio hefyd yn sail i'n dull o gyflenwi gwasanaethau, tra bo ein hymrwymiad i ddatblygu economi sylfaenol yng Nghymru nid yn unig yn helpu i leihau allyriadau carbon, ond hefyd i gryfhau gwydnwch a chefnogi busnesau a swyddi lleol. Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn adlewyrchu ymrwymiadau rhanbarthol a phenodol i wasanaethau pwysig, gan gynnwys y Rhaglen TrAMS, Gwasanaethau'r Golchdy a model yr Un Cyflogwr Arweiniol. Drwy gydol y cynllun, mae astudiaethau achos a mentrau allweddol yn dangos ein hymrwymiad i drawsnewid, technoleg, effeithlonrwydd a chynhyrchiant, gan ddangos effaith go iawn ein gwaith i GIG Cymru.

# Cynaliadwyedd

## Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull Unwaith i Gymru, lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth dynnu sylw at arfer gorau adrodd integredig, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau yn erbyn 'y Pum Ffordd o Weithio'. Mae'r rhain yn gofyn i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio â'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o gyflenwi gwasanaethau.




## Tymor Hir

- Cynnal ail-ardystiad i ISO14001:2015 ar gyfer yr amgylchedd.
- Cefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr a Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru.
- Gosod system wresogi is-goch yn Storfeydd Dinbych.
- Mwy o bwyslais ar bersbectif cylch bywyd gwastraff sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau mewn is-adrannau, a mwy o ystyriaeth o hyn.
- Rhaglen barhaus i osod paneli solar ffotofoltäig ar draws amrywiaeth o safleoedd wedi'i chwblhau.
- Gofynnwyd am gymeradwyaeth i raglen moderneiddio'r fflyd a fydd yn trawsnewid cynaliadwyedd ein fflyd dros raglen 10 mlynedd.
- Hyrwyddo atyniad cerbydau trydan a hybrid drwy'r Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Ceir a hyrwyddo'r cynllun Beicio i'r Gwaith a'i fanteision i staff.
- Buddsoddiad tymor hwy mewn seilwaith cynaliadwy ac effeithlonrwydd gweithredol, gan gynnwys gwefru cerbydau trydan (mabwysiadu unedau gwefru cyflym), uwchraddiadau LED, goleuadau synwyryddion, systemau storio y gellir eu hailddefnyddio, llai o ddibyniaeth ar bapur a gwelliannau parhaus i wastraff ac ynni ar draws safleoedd.

## Integreiddio

- Mae datgarboneiddio wedi'i wreiddio ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac mewn Amcanion Strategol, ac mae cyflawniadau allweddol yn uno â'n Nodau Llesiant; integreiddio a gwreiddio'r agenda; mwy o ffocws ar adrodd integredig.
- Mae ein proses monitro ôl troed carbon yn broses sydd wedi'i hintegreiddio'n dda gyda pharhau i fabwysiadu gweithio ystwyth.
- Cryfhau cysylltiadau a chysylltu ein hagenda Datblygu Cynaliadwy ac ISO14001, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan weithio mewn partneriaeth â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r nodau
- Cynnal Seremoni Gwobrau Cydnabod Staff yn flynyddol a chynnwys categorïau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Iechyd a Llesiant.
- Asesiadau Effaith Integredig ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer rhaglenni a phrosiectau perthnasol, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol a chyflogaeth foesegol.
- Gwelliannau cydgysylltiedig ar draws Matrix House, Storfeydd Pen-y-Bont, a Du Pont, lle mae newidiadau i'r ystâd, mesurau amgylcheddol, ailddefnyddio offer a chofnodion a phrosesau argraffu wedi'u diweddaru yn cefnogi ffyrdd mwy cysylltiedig o weithio.

## Cymryd Rhan

- Parhau i hyrwyddo pecyn e-ddysgu Lefel 1 GIG Cymru Cyflawni Sero Net drwy ESR a chyrsiau Lefel 2.
- Paratoi gohebiaeth ar gyfer yr agenda datgarboneiddio i staff, gan gynnwys fideo hyrwyddo a sesiynau ymwybyddiaeth ar ffurf boreau coffi.
- Grŵp Partneriaeth Iechyd a Llesiant Staff llwyddiannus dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, a chyhoeddi cyfathrebiadau yn rheolaidd.
- Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel ein Hyrwyddwr Gwrth-Gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi, gan gymeradwyo'r Datganiad Cyflogaeth Foesegol.
- Cyfleoedd i staff gymryd rhan yn yr agenda a gwneud gwahaniaeth drwy ddod yn Hyrwyddwr Amgylcheddol neu'n Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant gwirfoddol, gydag amrywiaeth o Rwydweithiau Staff a mentrau wedi eu cynnal.
- Wedi'i gefnogi gan newidiadau sy'n annog cyfranogiad staff mewn ymddygiadau cynaliadwy o ddydd i ddydd, fel defnyddio poteli dŵr, ailgylchu'n gywir, lleihau argraffu mewn lliw a mabwysiadu ffyrdd mwy diogel o reoli gollyngiadau, batris a gwastraff cetris argraffu.

## Cydweithredu

- Cydweithio drwy Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru a rhwydweithiau datgarboneiddio ehangach GIG Cymru i rannu dysgu, cysylltu dulliau a chefnogi darpariaeth gyson ar draws sefydliadau.
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, sefydliadau GIG Cymru a chyrff sicrwydd allanol wrth gynnal a chryfhau trefniadau ardystio ISO14001.
- Gweithio ar y cyd ar draws ystadau, caffael, fflyd a thimau gweithredol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi blaenoriaethau datgarboneiddio trwy fuddsoddiad cyfalaf, newidiadau i seilwaith a chynllunio gwasanaethau.
- Cydweithio â chyflenwyr a phartneriaid gwasanaeth i wella trefniadau rheoli gwastraff, llwybrau ailgylchu a chyfleoedd i leihau'r defnydd o safleoedd tirlenwi.
- Gweithio gydag arweinwyr safleoedd, timau is-adrannol a hyrwyddwyr amgylcheddol i nodi cyfleoedd gwella lleol a gwreiddio arferion cynaliadwy ar draws yr ystâd.
- Cydweithio traws-sefydliadol i gefnogi datblygiad a gweithrediad Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a threfniadau adrodd cysylltiedig.
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r economi sylfaenol yng Nghymru, gan gynnwys ymgysylltu â chyflenwyr a Busnesau Bach a Chanolig Cymru drwy weithgaredd caffael cynaliadwy.
- Cydweithio rhwng rhwydweithiau cynaliadwyedd, cyfathrebu a staff i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo newid ymddygiad a chefnogi cyfranogiad staff yn yr agenda datgarboneiddio.

## Atal

- Cynhaliwyd Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob gweithgarwch caffael dros £25,000 a chynhelir archwiliadau o'r broses hon.
- Parhau i weithredu'r Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth a'r dull cysylltiedig, gan alluogi staff i weithio'n hyblyg yn unol â gofynion sefydliadol.
- Lleihau'r defnydd o adnoddau prin a chyfyngedig sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau, megis lleihau amlder casglu papur a gwastraff cyfrinachol ar safleoedd.
- Cael ynni drwy Zero Carbon for Business, wedi'i ategu gan gynhyrchu niwclear carbon sero a'i ddangos drwy ardystiad Gwarant o Darddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO), gyda'r cynllun tymor canolig i hir i weithio tuag at ffynonellau seiliedig ar sero.
- Gosod Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ychwanegol ar draws safleoedd a chynlluniau i roi mwy o EVCUs ar waith i gefnogi datblygiad y fflyd.
- Ailddefnyddio ac adleoli raciau o IP5 yng Nghasnewydd i Storfeydd Pen-y-bont.
- Parhau i ddefnyddio System Rheoli Cydymffurfedd RAMIS (System Gwybodaeth Rheoli gyda Mynediad ar Hap).

- Wedi'i ddangos drwy gamau gweithredu sy'n atal gwastraff, peryglon a defnydd diangen, gan gynnwys rhybuddion digidol, argraffu llai, goleuadau LED a synwyryddion, citiau gollyngiadau, ailgylchu batris a chetris argraffu, ac osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi.
- Caiff gwastraff cyfrinachol a gynhyrchir ei rwygo a'i ailddefnyddio'n eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled a hancesi papur.
- Cynnig i blannu dôl hadau gwyllt yn IP5 yn unol â'r gofynion cynllunio, gan hybu bioamrywiaeth ar y safle.
- System dosbarthu rhybuddion y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol wedi'i moderneiddio, gan newid o broses bapur i system gwbl electronig, gan leihau hysbysiadau papur yn sylweddol, o 900 o safleoedd i bedwar.

## Perfformiad Cynaliadwyedd

Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO 14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae wedi cynnal yr ardystiad ers mis Awst 2014 trwy weithredu'r model Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu o welliant parhaus.

Mae cynnal ardystiad i Safon Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015 a gydnabyddir yn rhyngwladol yn rhoi sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith i nodi, rheoli a monitro effeithiau amgylcheddol, wedi'u cefnogi gan archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol, gweithgaredd archwilio mewnol ac ymrwymiad i arweinyddiaeth o'r brig i lawr. Mae hyn hefyd yn rhoi dilysiad allanol annibynnol bod y System Rheoli Amgylcheddol yn gweithredu'n effeithiol ac yn destun her rheolaidd, adolygiad a gwelliant parhaus. Mae'r Safon yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus, dull sy'n seiliedig ar risg a rheoli anghenion a disgwyliadau partïon â diddordeb yn effeithiol.

Llwyddodd PCGC i ail-ardystio i'r Safon drwy'r corff ardystio a achredwyd gan UKAS, Simply Certification Ltd, a chwblhaodd archwiliad gwyliadwriaeth Blwyddyn Un ym mis Mawrth 2025. Yn ystod 2025–26, gwnaed newidiadau i drefniadau ardystio yn dilyn colli achrediad UKAS gan bartner achredu Simply Certification. Er mwyn sicrhau parhad yr ardystiad a chadw'r archwilydd presennol, trosglwyddodd PCGC ei ardystiad ISO 14001 i Perry Johnson Registrars (PJR) ym mis Hydref 2025. Cynhaliwyd archwiliad gwyliadwriaeth y drydedd flwyddyn gan PJR ym mis Ebrill 2026, wedi'i gefnogi gan weithgarwch archwilio mewnol wedi'i amserlennu i sicrhau cydymffurfedd a pharodrwydd parhaus, a nododd y canfyddiadau chwe chyfle i wella.

Mae hyn yn rhoi sicrwydd pellach bod trefniadau ardystio wedi parhau'n effeithiol drwy gydol y cyfnod pontio ac na nodwyd unrhyw broblemau cydymffurfio perthnasol yn ystod yr adolygiad allanol.

## Perfformiad

Yn ystod 2025–26, cyflawnodd PCGC ostyngiad cyffredinol o 10.59% yn ei ôl troed carbon ar draws safleoedd ardystiedig ISO14001, gan ragori'n sylweddol ar y targed o flwyddyn i flwyddyn o 3%. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 208,830kg o CO2e (allyriadau carbon) dros y flwyddyn ariannol, gan ddangos cynnydd cryf a chynaliadwy yn erbyn amcanion y sefydliad.

| Maes | Prif fetrig 2025–26 | Tuedd |
|---|---|---|
| **Ôl-troed carbon cyffredinol** | **Gostyngiad o 10.59 % ar draws safleoedd** | ↓ |
| Defnydd trydan | Gostyngiad o 3.66% | ↓ |
| Defnydd trydan gwefru Cerbydau Trydan | 4.62% o gynnydd | ↑ |
| Defnydd nwy | Gostyngiad o 0.67% | ↓ |
| Defnydd olew cerosin | Gostyngiad o 54.02% | ↓ |
| Gwastraff i safle tirlenwi | 28.27 tunnell (8.5% o gyfanswm y gwastraff) | ↓ |
| Gwastraff wedi'i ddargyfeirio o safle tirlenwi | 304.64 tunnell (91.5% o gyfanswm y gwastraff) | ↑ |
| Gwastraff cyfrinachol | Gostyngiad o 28.8% | ↓ |
| Defnydd dŵr | Cynnydd amcangyfrifedig o 45.37% | ↑ |
| Allyriadau cerbydau dosbarthu | Gostyngiad o 8.46% | ↓ |
| Milltiroedd busnes | 0.27% o gynnydd | ↑ |
| Defnydd cerbydau cronfa | Gostyngiad o 4.20% | ↓ |
| Cerbydau staff yn ailwefru ar y safle | 2.04% o gynnydd | ↑ |

Gostyngodd y defnydd o drydan 3.66% (sy'n cyfateb i 18,543 o CO2e a arbedwyd). Ar gyfer safleoedd o fewn cylch gwaith a rheolaeth weithredol PCGC, caiff trydan ei gaffael drwy'r tariff Zero Carbon for Business. Mae'r cyflenwad hwn yn cael ei gefnogi gan gynhyrchu niwclear di-garbon a'i ddangos drwy ardystiad Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO), sy'n rhoi sicrwydd bod y trydan a brynir yn cyfateb i gynhyrchu carbon isel/di-garbon wedi'i ddilysu yn unol â gofynion adrodd.

O ran cyfanswm y defnydd o drydan, mae 4.65% yn ymwneud â defnyddio Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar draws ein hystâd, gyda defnydd o'r Unedau hyn yn cynyddu 4.62% yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffaith fod pwyntiau gwefru ar gael 24/7 a bod mynediad atynt yn rhwydd yn annog staff GIG Cymru i'w defnyddio (gyda fflyd y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn parhau i gael mynediad â blaenoriaeth fel "olwynion y GIG yng Nghymru"). Mae defnydd cynyddol o EVCUs yn cael ei ystyried yn gadarnhaol i'r gymuned ehangach o ran ansawdd aer a llai o allyriadau pibellau egsost; fodd bynnag, dylid nodi bod ehangu a defnyddio seilwaith gwefru ar y safle yn cyfrannu at gynnydd yn y galw am drydan. Rhagwelir, dros amser, y bydd y cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso fwyfwy gan drydan a gynhyrchir drwy systemau ffotofoltäig solar (PV) fydd wedi'u gosod.



Gostyngodd y defnydd o nwy 0.67% (sy'n cyfateb i 925kg o $CO_2e$ wedi'i arbed). Gostyngodd yr olew cerosin a ddefnyddiwyd i gynhesu safle Ystâd Ddiwydiannol Westpoint hefyd 54.02% (gostyngiad o 5,145kg o $CO_2e$) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r unig safle sy'n defnyddio olew i gynhesu'r adeilad, a gellir priodoli'r gostyngiad i aeaf cynhesach a llai o alw am wresogi.

Er mwyn cyflawni'r gostyngiad hwn, mae ystod o fentrau wedi'u targedu wedi'u cynllunio a'u gwreiddio ar draws ein safleoedd a'n gwasanaethau. Mae buddsoddiadau mewn technolegau sy'n fwy ecogyfeillgar, fel gosod paneli solar a seilwaith gwefru cerbydau trydan, wedi cyfrannu'n sylweddol at y gostyngiad mewn allyriadau carbon gan y sefydliad. Mae'r Hyrwyddwyr Amgylcheddol a'r Tîm Gwyrdd yn parhau i nodi ffyrdd o leihau ein heffaith a lle gellir gwneud arbedion, yn ogystal â defnyddio technoleg i wella dulliau o gasglu data ac adrodd arno.

Mae parhau i fabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff ar safleoedd, ac mae hyn, ynghyd â mwy o addysg ac ymwybyddiaeth o'r nodau a'r targedau amgylcheddol a'r gwahaniaeth y gall staff ei wneud, ni waeth pa mor fach, wedi gwneud cyfraniad i'w groesawu at y gostyngiad. Rydym hefyd wedi annog staff i ymgymryd â modiwlau e-ddysgu fel Cyflawni Sero Net yn GIG Cymru, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn rhoi sicrwydd bod cynnydd yn cael ei sbarduno trwy gyfuniad o fuddsoddiad cyfalaf, newid ymddygiad, ymgysylltiad â staff a gwybodaeth reoli well.

Mae'r prosiectau hyn, gan gynnwys newidiadau ymddygiad a'r dull gweithio ystwyth parhaus, yn dangos dull rhagweithiol a chydlynol o leihau'r defnydd o drydan. Mae'r gostyngiad cyfunol mewn defnydd ynni yn adlewyrchu cyfuniad o ymyriadau a mentrau wedi'u targedu sydd wedi eu cyflwyno ar draws yr ystâd, gan gynnwys rhesymoli'r ystâd, adleoli o Brecon House i Du Pont a thynnu Samlet Road o'r cwmpas, yn dilyn ei ail-neilltuo i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth GIG Ambiwlans Cymru (WAST), yn ogystal â gosod paneli cynhyrchu ynni solar mewn safleoedd allweddol, gan gynnwys IP5 yng Nghasnewydd, Tŷ Matrix yn Abertawe a Storfeydd Dinbych yng Ngogledd Cymru, a fydd yn creu ffigurau gwaelodlin newydd, o hyn ymlaen.

Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd oedd 332.90 tunnell, ac anfonwyd 28.27 tunnell (8.5%) ohono i safleoedd tirlenwi cyffredinol. Gwaredwyd i safleoedd tirlenwi o ddau safle yn unig: IP5 ar 22.18 tunnell (6.09%), a Thŷ'r Cwmnïau ar 6.09 tunnell (1.8%). Mae pob safle arall yn dangos dim tan-wastraff wedi ei anfon i safleoedd tirlenwi sy'n golygu bod y 304.64 tunnell (91.5%) sy'n weddill wedi'i reoli trwy lwybrau nad ydynt yn safleoedd tirlenwi.



Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cadarnhau mai ei bolisi yw peidio ag anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi ac mae wedi cywiro hyn gyda'i ddarparwr gwasanaeth gwastraff. Mewn cyferbyniad, adroddodd yr holl safleoedd eraill nad oedd unrhyw wastraff wedi mynd i'w dirlenwi, gan sicrhau bod eu gwastraff wedi'i ddargyfeirio'n llawn i lwybrau ailgylchu ac adfer (e.e., cardbord, ailgylchu cymysg, metelau, papur/cardbord a phlastigau/metelau/cartonau). Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed i wella'r gwaith o wahanu ffrydiau gwastraff a newidiadau ymddygiad cysylltiedig. At ei gilydd, ymdriniwyd â 306.86 tunnell drwy lwybrau ailgylchu ac adfer cyfrifol, sy'n dangos bod y defnydd o safleoedd tirlenwi wedi'i ganoli mewn nifer fach o leoliadau tra bo'r rhan fwyaf o safleoedd yn cyflawni dargyfeirio o safleoedd tirlenwi yn llwyr. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod eithriadau wedi'u nodi, eu herio a'u datrys, a bod rheolaethau dros wahanu a gwaredu gwastraff yn gweithredu'n effeithiol ar draws yr ystâd ehangach.

Gostyngodd gwastraff cyfrinachol yn gyffredinol o 28.8% (sy'n cyfateb i 7,451Co2e wedi'i arbed). Dilynodd Tŷ'r Cwmnïau y modd y ceir gwared ar finiau gwastraff cyfrinachol dros ben. Mae'r holl wastraff cyfrinachol yn cael ei gadw mewn biniau diogel ar y safle ac yn cael ei gludo ymaith gan ddarparwyr gwasanaeth achrededig i'w addasu at ddibenion gwahanol i greu eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled, hancesi papur, ac ati. Mae pob ffrwd wastraff arall yn cael ei gwaredu'n briodol ac yn gyfrifol ac yn unol â'r Rheoliadau perthnasol. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu prosesau

digidol i leihau'r defnydd o bapur, arbed adnoddau a chryfhau diogelwch data, gan adlewyrchu ein hymrwymiad ehangach i leihau'r defnydd o adnoddau prin (h.y. papur).

Cynyddodd y defnydd o ddŵr tua 45.37%, sef tua 499 CO2e. Bu'n rhaid amcangyfrif y data gan fod y broses bilio yn un bob chwe mis. Mae'r defnydd o ddŵr yn statig i raddau helaeth ac yn amrywio o bryd i'w gilydd oherwydd effeithiau gweithredol cynnydd yn nifer y gweithwyr ar y safle. Lle gellir adrodd am ddŵr, mae hyn yn ôl-weithredol o anfonebau, a dylid nodi mai anfonebau defnydd sefydlog yw'r rhain yn hytrach na darlleniadau mesurydd yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol y safle. Felly, dylid trin y ffigur hwn fel amcangyfrif. Mae'r cyfyngiad yn hysbys, yn dryloyw ac yn cael ei gymhwyso'n gyson o fewn y fethodoleg adrodd.

Gostyngodd milltiroedd trafnidiaeth ar gyfer allyriadau cerbydau dosbarthu 8.46% (sy'n cyfateb i 68,839 o CO2e wedi'u harbed). Yn arbennig, gostyngodd allyriadau cerbydau dosbarthu yn IP5 yn sylweddol, gan gynrychioli'r cyfraniad mwyaf at leihau carbon, gyda chyflwyno cerbydau trydan (EVs) ychwanegol i gefnogi'r rhaglen moderneiddio'r fflyd a buddsoddiad. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen moderneiddio'r fflyd i liniaru allyriadau ymhellach, gwella effeithlonrwydd tanwydd a chefnogi'r newid i gerbydau trydan ac allyriadau isel ar draws ein gweithrediadau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod cyfran sylweddol o'r gostyngiad yn gysylltiedig â newidiadau gweithredol pendant yn hytrach na rhagdybiaethau am ragolygon yn unig.

Cynyddodd milltiroedd busnes ychydig o 0.27% yn ystod y cyfnod, er gwaethaf y trefniadau gweithio ystwyth parhaus a'r defnydd cynyddol o dechnoleg i gynnal cyfarfodydd ar-lein.

Gwelsom ostyngiad o 4.20% yn y defnydd o gerbydau cronfa (sy'n cyfateb i 49 litr o danwydd neu 10kg o CO2e). Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn lleihau'r defnydd o gerbydau staff ar gyfer cymudo ac yn annog rhannu ceir lle y bo modd, ac mae mabwysiadu gweithio ystwyth yn barhaus hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Yn ogystal, mae ceir cronfa a ddefnyddir o fewn y sefydliad yn gerbydau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd, fel modelau trydan neu hybrid, gan liniaru ein heffaith amgylcheddol ymhellach. Cynyddodd nifer y staff sy'n ailwefru eu cerbydau ar safleoedd PCGC 2.04% yn ystod y cyfnod. Gyda'i gilydd, mae'r tueddiadau hyn yn rhoi sicrwydd pellach bod ymddygiadau teithio yn newid yn raddol i gefnogi opsiynau trafnidiaeth allyriadau is.

## Edrych Ymlaen

Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ansawdd, cywirdeb a phrydlondeb data cynaliadwyedd fel y gellir olrhain tueddiadau perfformiad yn fwy cyson a'u defnyddio'n fwy effeithiol i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Bydd hyn yn cynnwys gwella data sylfaenol lle mae newidiadau i'r ystâd wedi effeithio ar gymhariaeth, gwneud gwell defnydd o wybodaeth wedi'i mesur a gwybodaeth benodol i safleoedd lle bo ar gael, a pharhau i fireinio'r ffordd y mae data allyriadau, cyfleustodau, teithio a gwastraff yn cael ei gasglu a'i adrodd ar draws y sefydliad.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu gweithgaredd gwella wedi'i dargedu drwy'r Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan gynnwys moderneiddio'r fflyd, gwneud

mwy o ddefnydd o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, gwahanu a lleihau gwastraff yn well, a chamau pellach i gefnogi effeithlonrwydd ynni ar draws yr ystâd.

O ran yr ardystiad ISO 14001, byddwn yn canolbwyntio nid yn unig ar gynnal ail-ardystio, ond hefyd ar ehangu cwmpas yr ardystiad i gynnwys pedwar safle Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan a pharatoi ar gyfer y newid i'r safon ISO 14001:2026 wedi'i diweddaru, gan ddatblygu ar y trefniadau sydd eisoes wedi'u sefydlu trwy ein hardystiad presennol. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn helpu i gryfhau sicrwydd, gwella'r gwaith o reoli perfformiad a chefnogi cyflawni mwy o ostyngiadau carbon yn ystod 2026–27.

## Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ac Addasu i'r Hinsawdd

Cyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021–2030 yn wreiddiol ym mis Mawrth 2021, ac mae'n nodi map ffordd cynhwysfawr ar gyfer cyflawni uchelgeisiau sero net GIG Cymru erbyn 2030. Roedd y Cynllun wedi'i strwythuro o amgylch 46 o fentrau cenedlaethol yn cwmpasu rheoli carbon, adeiladau, trafnidiaeth, caffael, cynllunio ystadau, defnydd tir ac addasu i'r hinsawdd. Arweiniodd PCGC y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio ar ran GIG Cymru, gan sefydlu'r fframwaith system gyfan ar gyfer cyflenwi ac adrodd. Cyhoeddwyd diweddariad ym mis Tachwedd 2025, i roi ffocws ar gyfer y cyfnod sy'n weddill sy'n dod i ben yn 2030.

Yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio gwreiddiol, fe wnaeth PCGC symud ymlaen i gyflawni rôl arweinyddiaeth genedlaethol ar draws sawl ffrwd cyflawni allweddol, gan gynnwys adeiladau, trafnidiaeth, caffael, cynllunio ystadau a defnydd tir, wrth roi cefnogaeth strategol a gweithredol hefyd ar draws ffrydiau gwaith eraill i gydnabod dylanwad sylweddol y sefydliad ar weithgarwch a llunio penderfyniadau a gwariant GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys arweinyddiaeth ar gydlynu ar draws y system, monitro perfformiad ac adrodd, a gweithredu fel y prif ryngwyneb â Rhaglen Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r rôl hon barhau am oes rhaglen y Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio. Ochr yn ochr â'i rôl genedlaethol, datblygodd a chynhaliodd PCGC ei Chynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio ei hun: Lluniwyd y cyntaf sy'n cwmpasu 2022-2024 i fynd i'r afael ag allyriadau sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithgareddau. Canolbwyntiodd y Cynllun ar leihau effaith amgylcheddol adeiladau, gweithrediadau fflyd, logisteg a gwasanaethau'r golchdy, ochr yn ochr â mentrau i wreiddio ymddygiadau cynaliadwy ac ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad. Mae cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu wedi'i integreiddio i'r fframwaith cynllunio a pherfformiad sefydliadol, gan gynnwys monitro drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Datblygwyd ail fersiwn o Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio PCGC sy'n cwmpasu'r cyfnod 2024–2026 i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o gamau cynharach y broses gyflawni, aeddfedrwydd cynyddol y data, a disgwyliadau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg ynghylch gwydnwch ac addasu i'r hinsawdd. Mae cynnydd a risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r Cynllun yn cael eu goruchwylio drwy'r Grŵp Cyflenwi Datgarboneiddio (DDG), sy'n cyfarfod bob dau fis i gydlynu gweithgaredd ar draws PCGC a system ehangach GIG Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, chwaraeodd PCGC ran flaenllaw hefyd yn natblygiad diweddariad y Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio cenedlaethol a mabwysiadwyd hwn ym mis Tachwedd 2025.

Yn ganolog i'n holl waith yn y maes hwn mae'r Bartneriaeth Gweithredu ar Newid Hinsawdd (a elwid gynt yn Dîm Cydlynu ac Adrodd am Ddatgarboneiddio). Mae'r Bartneriaeth Gweithredu ar Newid Hinsawdd yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio. Mae'r Tîm yn rhoi arweinyddiaeth, cydlynu, cefnogaeth ddadansoddol ac adroddiadau cenedlaethol, gan sicrhau bod data cyson yn cael ei gasglu, olrhain cynnydd a rhoi sicrwydd ar draws GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys cefnogi adrodd i Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau a Llywodraeth Cymru, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng datgarboneiddio, cynllunio cyfalaf, trawsnewid gwasanaethau ac addasu i'r hinsawdd.

Yn ystod 2025–26, derbyniodd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ddiweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio, gan gynnwys heriau sy'n dod ar draws y system sy'n ymwneud ag argaeledd cyfalaf, fforddiadwyedd, a chyflymder y cyflenwi, ochr yn ochr â'r angen cynyddol i gysylltu gweithgaredd datgarboneiddio â gwydnwch ystadau a chynllunio sut i addasu i'r hinsawdd. Atgyfnerthodd y trafodaethau hyn bwysigrwydd blaenoriaethu, llywodraethu effeithiol a chydlynu cenedlaethol parhaus wrth i GIG Cymru drawsnewid o gynllunio i gyflenwi cynaliadwy.

## Wrth edrych ymlaen, bydd PCGC yn parhau i:

- roi arweinyddiaeth a chydlynu cenedlaethol ar gyfer rhaglen datgarboneiddio GIG Cymru;
- cryfhau cysylltiadau rhwng datgarboneiddio, addasu, strategaeth ystadau a chynllunio cyfalaf;
- cefnogi sefydliadau GIG Cymru i fodloni gofynion adrodd a sicrwydd; a
- gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar draws y gwaith o lunio penderfyniadau ar draws y sefydliad a'r system.









# Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern

Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n derbyn arian cyhoeddus. Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, sathru ar hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gyflawnir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol.

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn prynu ein gwasanaethau a'n nwyddau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Ymrwymwyd i'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TiSC) yn gronfa ddata ganolog sy'n rhoi mynediad i Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr. Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol. Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth a pholisïau cysylltiedig yn gyhoeddus. Mae'r wefan wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi. Hyd yma, mae PCGC wedi:

- Gwreiddio'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn gweithdrefnau gweithredu safonol
- Wedi darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu/caffael ar gaethwasiaeth fodern, arferion cyflogaeth moesegol.
- Alinio'r Cod Ymarfer yn ein Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy ehangach.
- Dod yn llofnodwr i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC.
- Anogwyd cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ac i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC) i roi cyhoeddusrwydd i'w hymrwymiad a'u datganiadau am Gaethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.
- Ymgysylltu â chydweithwyr ehangach yn GIG yr Alban, GIG Gogledd Iwerddon, a GIG Lloegr i barhau i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ei Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, yn ei ddisgwyl. I gefnogi'r gwaith hwn, mae PCGC yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gyfrannu at ddatblygu safonau moesegol gwell. Wrth baratoi ar gyfer y Cod diwygiedig, rydym yn

ailystyried ein hymrwymiadau. Gallai hyn gynnwys gwahanu ymrwymiadau cyflogaeth fewnol a chyflogaeth yn y gadwyn gyflenwi, ystyried Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw ac integreiddio'r ymrwymiadau hyn mewn polisi ehangach. Yn ogystal, wrth edrych tua'r dyfodol, bydd PCGC yn mabwysiadu'r gyfres o fetrigau caffael i fonitro cynnydd ac effaith, yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. Mae'r camau gweithredu hyn yn pwysleisio ein hymrwymiad parhaus i arferion caffael moesegol, tryloyw, cymdeithasol gyfrifol a chynaliadwy.

# Partneriaeth Gymdeithasol

Mae PCGC yn parhau i gynnal egwyddorion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, gan gydweithio â staff, undebau llafur a rhanddeiliaid i hyrwyddo gwaith teg, gwella llesiant a chefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel. Fel galluogwr allweddol GIG Cymru, mae PCGC yn darparu ystod eang o wasanaethau anghlinigol ac yn rhoi pwyslais cryf ar ymgysylltu cynhwysol â'r gweithlu.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, cynhaliodd PCGC ddeialog reolaidd ac ystyrlon â staff a chynrychiolwyr undebau llafur drwy fforymau partneriaeth sefydledig a strwythurau is-adrannol. Roedd y mecanweithiau hyn yn galluogi staff i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu gwasanaethau a gwella ansawdd, yn enwedig drwy fframwaith y Ddyletswydd Ansawdd, a oedd yn cynnwys hunanasesiadau is-adrannol ac adrodd parhaus.

Mae PCGC yn gwerthfawrogi rôl undebau llafur wrth lunio amgylchedd gwaith cadarnhaol. Drwy weithio mewn partneriaeth ag undebau fel GMB, UNISON, Unite, Cymdeithas Feddygol Prydain (BMA), a Rheolwyr mewn Partneriaeth (MiP), mae'r sefydliad yn elwa o well dealltwriaeth gydfuddiannol, gweithredu polisïau'n fwy effeithiol, a safonau uchel o arferion cyflogaeth. Anogir staff i ymaelodi ag undeb, gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu tryloyw a symlach rhwng cyflogwyr, undebau a gweithwyr.

Wrth flaenoriaethu llesiant a chynhwysiant staff, darparodd PCGC hyfforddiant a oedd yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg ac arferion cynhwysol. Cefnogodd mentrau fel y rhaglen Codi Llais Heb Ofn, a gwerthusiadau o brofiad staff, ddiwylliant o fod yn agored a gwelliant parhaus. Dathlwyd cyfraniadau staff drwy'r Gwobrau Cydnabod Staff Blynyddol, sioeau teithiol rhanbarthol, a'r Gynhadledd Iechyd a Llesiant Flynyddol.


Yn unol ag egwyddorion gwaith teg, parhaodd PCGC i gynnig cyflogaeth ddiogel, cyflog teg a chyfleoedd datblygu. Cyd-gynhyrchwyd cynlluniau'r gweithlu gyda mewnbwn o bob is-adran, a chynhaliwyd prosiectau arloesi peilot dan arweiniad staff er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau. Roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda pholisïau recriwtio cynhwysol, gweithgorau a hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod a chymhwysedd diwylliannol. Hefyd, cadwodd PCGC ei Hachrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, a ddyfynnwyd yn adroddiad y Ddyletswydd Ansawdd fel tystiolaeth o ymrwymiad y sefydliad i ansawdd a chanolbwyntio ar gwsmeriaid. Llywiodd adborth gan aseswyr allanol welliannau mewnol a helpodd i rannu arfer gorau ar draws is-adrannau.

Wrth gaffael, fe wnaeth PCGC wreiddio gwerth cymdeithasol a safonau cyflogaeth moesegol, gan gefnogi cyflenwyr lleol a chyfrannu at yr economi sylfaenol. Drwy gydweithio, tryloywder a gwneud penderfyniadau ar y cyd, mae PCGC yn parhau i hyrwyddo agenda partneriaeth gymdeithasol a chefnogi nodau ehangach GIG Cymru.



# 7.
# Ein Pobl

# Ein Pobl - Cipolwg



## Proffil Oedran

**33.49%** 30 ac o dan

**36.51%** 31-40

**18.40%** 41-55

**11.60%** 56 ac o dan

## Rhywedd

**55.86%** Benyw

**44.14%** Gwryw

## Categori Aseiniad

**40.41%** Llawn-amser

**59.86%** Cyfnod Penodol Dros Dro

## Categori Cyflogeion yn ôl Rhywedd

Benyw: **63.5%** Llawn-amser
Benyw: **36.5%** Rhan-amser

Gwryw: **80.8%** Llawn-amser
Gwryw: **19.2%** Rhan-amser

## Crynodeb o Nifer Staff PCGC yn eu Swydd a'r Nifer Cyfwerth ag Amser Llawn

| Is-adran | Nifer y bobl | CALl |
|---|---|---|
| Cyfrifon Taladwy | 155 | 149.19 |
| Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd | 57 | 53.71 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 27 | 23.91 |
| Atal Twyll | 7 | 6.93 |
| Gweithlu Digidol | 27 | 26.67 |
| Tîm Canolog e-Fusnes | 17 | 16.53 |
| Gwasanaethau Cyflogaeth | 336 | 295.67 |
| Yr Academi Gyllid | 8 | 6.71 |
| Cyllid | 30 | 28.43 |
| Gwasanaethau'r Golchdy | 195 | 169.39 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg | 187 | 174.11 |
| Archwilio Meddygol | 95 | 65.20 |
| Gweithlu Meddygol | 21 | 20.25 |
| Pobl a Datblygu Sefydliadol | 47 | 43.41 |
| Gwasanaethau Technegol Fferyllol | 55 | 53.20 |
| Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg | 49 | 47.85 |
| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | 305 | 281.26 |
| Gwasanaethau Caffael | 809 | 745.96 |
| Un Cyflogwr Arweiniol | 3641 | 3388.23 |
| Gwasanaethau Ystadau Arbenigol | 55 | 54.02 |
| Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) | 26 | 23.92 |
| Uned Cyflogwyr Cymru | 7 | 6.33 |
| **Cyfanswm** | **6156** | **5680.89** |

## Crynodeb o Gategorïau Aseinio PCGC

| Categori Aseinio | Nifer y bobl | CALl | % |
|---|---|---|---|
| Cyfnod Penodol Dros Dro | 3685 | 3422.78 | 59.86% |
| Parhaol | 2471 | 2258.11 | 40.14% |
| **Cyfanswm** | **6156** | **5680.89** | **100.00%** |

## Crynodeb o Broffil Oedran PCGC

| Band Oedran | % |
|---|---|
| <=20 Oed | 0.21% |
| 21-25 | 11.79% |
| 26-30 | 21.49% |
| 31-35 | 23.21% |
| 36-40 | 13.30% |
| 41-45 | 7.28% |
| 46-50 | 5.43% |
| 51-55 | 5.69% |
| 56-60 | 6.12% |
| 61-65 | 4.21% |
| 66-70 | 0.96% |
| >=71 Oed | 0.31% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

## Crynodeb Rhywedd PCGC

| Rhywedd | Nifer | FTE | % |
|---|---|---|---|
| Menywod | 3439 | 3109.20 | 55.86% |
| Dynion | 2717 | 2571.69 | 44.14% |
| **Cyfanswm** | **6156** | **5680.89** | **100.00%** |

## Categorïau Gweithwyr PCGC yn ôl Rhywedd

| Categori Cyflogeion | Menywod | Dynion |
|---|---|---|
| Llawn amser | 63.48% | 80.79% |
| Rhan-amser | 36.52% | 19.21% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **100.00%** | **100.00%** |

## Crynodeb o Grwpiau Ethnig PCGC

| Grŵp Ethnig | % |
|---|---|
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 23.44% |
| Gwyn | 66.29% |
| Heb Nodi | 2.26% |
| Gwag | 8.01% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

## Crynodeb o Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | % |
|---|---|
| Mewn partneriaeth sifil | 1.22% |
| Wedi ysgaru | 2.60% |
| Wedi Gwahanu'n Gyfreithiol | 0.26% |
| Yn briod | 29.94% |
| Yn sengl | 30.73% |
| Yn weddw | 0.39% |
| Anhysbys | 34.86% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

## Crynodeb Cyfeiriadedd Rhywiol PCGC

| Cyfeiriadedd Rhywiol | % |
|---|---|
| Deurywiol | 2.42% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 2.10% |
| Gwahanrywiol neu Syth | 72.09% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall nad yw wedi'i restru | 0.15% |
| Heb nodi (gofynnwyd i'r person ond gwrthododd roi ymateb) | 4.08% |
| Heb benderfynu | 0.03% |
| Amhenodol | 19.14% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

## Crynodeb Cred Grefyddol PCGC

| Cred Grefyddol | % |
|---|---|
| Anffyddiaeth | 17.41% |
| Bwdhaeth | 0.62% |
| Cristnogaeth | 24.53% |
| Hindŵaeth | 1.53% |
| Islam | 5.26% |
| Jainiaeth | 0.03% |
| Iddewiaeth | 0.06% |
| Siciaeth | 0.16% |
| Arall | 5.72% |
| Dydw i ddim am ddatgelu fy nghrefydd/nghred | 22.87% |
| Amhenodol | 21.80% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

## Tueddiadau Absenoldeb Salwch

Mae tueddiadau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2025–26 yn adlewyrchu cyfuniad o symudiad cadarnhaol a her barhaus.

Er bod cyfanswm y dyddiau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gollwyd wedi cynyddu ychydig, roedd hyn ochr yn ochr â thwf yn y gweithlu cyffredinol, sy'n golygu bod y dyddiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul pob gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn wedi gostwng o 12.53 i 11.98, wrth gynnwys staff Un Cyflogwr Arweiniol (SLE), ac o 18.66 i 18.30, wrth eithrio Un Cyflogwr Arweiniol. Mae'r data hefyd yn dangos mai absenoldeb hirdymor oedd y prif ffactor a achosodd y dyddiau a gollwyd, gan gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, tra bo absenoldeb tymor byr wedi lleihau ychydig. Ar yr un pryd, gostyngodd cyfran y staff heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch, sy'n dangos bod cyfran fwy o'r gweithlu wedi profi absenoldeb yn ystod y flwyddyn. Gyda'i gilydd, mae hyn yn awgrymu, er bod lefelau absenoldeb cyffredinol wedi gwella ychydig o'u mesur yn erbyn maint y gweithlu, mai absenoldeb salwch hirdymor yw'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar y duedd ac mae'n parhau i fod yn faes ffocws pwysig ar gyfer cefnogaeth barhaus, rheoli presenoldeb a gweithgaredd yn ymwneud â llesiant y staff.

## Cyfartaledd Cyfwerth ag Amser Llawn Staff PCGC

| Gan gynnwys Un Cyflogwr Arweiniol | Cyflogeion | Secondiadau Mewnol | Staff Asiantaeth | Staff Banc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| BA (FY) 2024/25 | 5,363.65 | 2.14 | 3.94 | 66.44 | 5,436.17 |
| BA (FY) 2025/26 | 5,774.87 | 6.89 | 1.47 | 46.71 | 5,829.94 |

| Heb gynnwys Un Cyflogwr Arweiniol | Cyflogeion | Secondiadau Mewnol | Staff Asiantaeth | Staff Banc | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| BA (FY) 2024/25 | 2,179.05 | 2.14 | 3.94 | 66.44 | 2,251.57 |
| BA (FY) 2025/26 | 2,314.18 | 6.89 | 1.47 | 46.71 | 2,369.25 |

| Gan gynnwys Un Cyflogwr Arweiniol | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|
| Diwrnodau Cyfwerth ag Amser Llawn a gollwyd (tymor hir) | 44,637.38 | 47,154.89 |
| Diwrnodau Cyfwerth ag Amser Llawn a gollwyd (tymor byr) | 22,590.99 | 22,050.15 |
| Cyfanswm y dyddiau Cyfwerth ag Amser Llawn a gollwyd | 67,228.38 | 69,205.04 |
| Cyfartaledd y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (Cyfwerth ag Amser Llawn) | 5,363.65 | 5,774.87 |
| Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd (CALl) | 12.53 | 11.98 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (Nifer y bobl) | 7,324 | 7,510 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb unrhyw absenoldeb salwch (Nifer y bobl): | 3,683 | 3,474 |
| Canran y staff heb unrhyw absenoldeb salwch | 50.29% | 46.26% |

**Nid yw'n cynnwys secondiad i mewn, asiantaeth, banc*

| Heb gynnwys Un Cyflogwr Arweiniol | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|
| Diwrnodau CALl (FTE) a gollwyd (tymor hir) | 30,543.28 | 32,525.79 |
| Diwrnodau CALl (FTE) a gollwyd (tymor byr) | 10,114.29 | 9,828.70 |
| Cyfanswm y dyddiau CALl (FTE) a gollwyd | 40,657.58 | 42,354.49 |
| Cyfartaledd y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (CALl) | 2,179.05 | 2,314.18 |
| Diwrnodau gwaith cyfartalog (CALl) a gollwyd | 18.66 | 18.30 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (Nifer y bobl) | 2,694 | 2,778 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb unrhyw absenoldeb salwch (Nifer y bobl): | 1,377 | 1,232 |
| Canran y staff heb unrhyw absenoldeb salwch | 51.11% | 44.35% |

**Nid yw'n cynnwys secondiad i mewn, asiantaeth, banc*



# 8.
# Edrych Ymlaen

# Edrych ymlaen

Wrth i ni fyfyrio ar ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd yn edrych ymlaen at y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a fydd yn llunio ein dyfodol. Mae'r adran hon yn amlinellu ein cyfeiriad strategol a'n datblygiadau arfaethedig, wedi'u cysylltu â'r nodau a gyflwynir yn ein **Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ar gyfer 2026-2029**. Gallwch archwilio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig llawn yma:

## Ein Hegwyddorion:

### Trawsnewid ac Arloesi Digidol

Rydym yn cydnabod potensial trawsnewidiol technolegau digidol wrth wella ansawdd gwasanaethau, effeithlonrwydd a phrofiadau ein staff a'n partneriaid ar draws GIG Cymru. Gan adeiladu ar ein rhaglenni arloesi a'n galluoedd digidol cryfach, byddwn yn parhau i foderneiddio ein systemau, ehangu awtomeiddio, a harneisio mewnwelediad a sbardunir gan ddata i gefnogi gwell penderfyniadau. Ein ffocws ar gyfer 2026-27 fydd darparu atebion sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan alluogi PCGC i weithredu gyda mwy o ystwythder, ymatebolrwydd a gwerth i'n partneriaid.

### Datblygu, Arwain a Diwylliant y Gweithlu

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu hyderus, medrus a thosturiol sydd wedi'i rymuso i arwain newid a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Drwy ein Cynllun Pobl a buddsoddiad parhaus mewn datblygu arweinwyr, piblinellau talent a diwylliant gweithle cynhwysol, byddwn yn cefnogi ein pobl i ffynnu a gwireddu eu potensial. Bydd cryfhau ymgysylltiad, hyrwyddo dysgu, ac ymgorffori arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol yn ein helpu i adeiladu gweithlu gwydn sy'n cydredeg ag anghenion GIG Cymru.

### Effeithlonrwydd Gweithredol a Moderneiddio Gwasanaeth

Bydd PCGC yn parhau i foderneiddio gwasanaethau a symleiddio prosesau er mwyn darparu mwy o werth, gwella perfformiad a chynyddu cysondeb ledled Cymru. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyllideb gytbwys. Trwy leihau amrywiad direswm, croesawu offer digidol ac optimeiddio llif gwaith, byddwn yn rhyddhau amser, capasiti ac adnoddau i gefnogi ein partneriaid yn well. Bydd ein ffocws ar welliant parhaus a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn effeithlon, yn ymatebol ac yn cydredeg â blaenoriaethau cenedlaethol.

**Cydweithio, Llywodraethu a Phartneriaethau Strategol**

Mae gwaith partneriaeth cryf wrth wraidd y ffordd rydym yn cyflawni gwerth i GIG Cymru o hyd. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau, Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol i sicrhau aliniad, tryloywder ac atebolrwydd a rennir. Drwy gryfhau trefniadau llywodraethu, gwella sianeli cyfathrebu a chyfrannu'n rhagweithiol at raglenni cenedlaethol, byddwn yn helpu i gefnogi darparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl Cymru.

**Cynaliadwyedd, Datgarboneiddio a Gwydnwch**

Rydym yn deall ein cyfrifoldeb i gefnogi ymrwymiadau datgarboneiddio ac amgylcheddol GIG Cymru. Drwy arferion mwy cynaliadwy, caffael, a chynllunio ystadau sy'n effeithlon o ran ynni, byddwn yn cyfrannu at nodau hinsawdd cenedlaethol wrth wella gwydnwch ar draws ein gwasanaethau.



# Cynllun Blwyddyn 1 ar Dudalen - *Wedi'i alinio a'n hamcanion a'n canlyniadau strategol*

## Ein Pobl

Ymgorffori'r Cynllun Gweithredu Diwylliant Cynhwysol i sicrhau gweithle sy'n ddiogel yn rhywiol, yn wrth-hiliol, yn gynhwysol ac yn dosturiol.

Cyflwyno Strategaeth a Pholisi'r Gymraeg ar draws y sefydliad gyda chymorth gan Diwtor Cymraeg a Swyddog Hwyluso'r Gymraeg penodedig.

Gwerthuso pecyn Hyfforddiant Ymsefydlu Caffael Meddyginiaethau Fferyllfeydd Cymru newydd i'w gyflwyno i Adrannau Fferylliaeth pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth ar gyfer caffael meddyginiaethau.

Gweithredu unrhyw argymhellion o adolygiad gwasanaeth gweithredol yr Un Cyflogwr.

Datblygu, gweithredu ac ymgorffori cynlluniau gweithlu adrannol sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Rheoli Talent, y Strategaeth Gweithlu Corfforaethol a chynllunio olyniaeth ar gyfer rolau critigol.

Lansio'r porth buddion staff ledled GIG Cymru.

Dyfarnu Systemau Gweithlu ar sail Cymru Gyfan.

## Ein Gwasanaethau

Gweithio gyda gwledydd eraill i rannu gwybodaeth ac arfer da ynghylch rheoli hawliadau esgeulustod clinigol.

Parhau i wella effeithlonrwydd ein gwasanaethau ar draws yr is-adran drwy arloesi ac awtomeiddio digidol systemau etifeddol a newydd er mwyn cefnogi model cydwasanaeth yn well.

Datblygu offeryn adrodd data MES i gynorthwyo LIC i ddeall data marwolaethau drwy ychwanegu codio ICD11 i ddyrannu marwolaethau i benodau.

Prosiect System Ddigidol TRAMS.

Moderneiddio Canolfannau Dosbarthu Cenedlaethol, warysau, rheoli rhestr eiddo ysbytai, Model Trafnidiaeth a Logisteg ar gyfer GIG Cymru, ac ehangu'r ystod o gynhyrchion sydd wedi'u stocio'n genedlaethol.

Cynnal adolygiad strategol o gaffael prosiectau cyfalaf yn y dyfodol ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Adolygu'r dull archwilio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â gofynion GIG Cymru a Safonau Byd-eang y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (IIA), gan baratoi ar gyfer Asesiad Ansawdd Allanol.

## Ein Gwerth

Cyflwyno SganioErDiogelwch yn rhan o'r rhaglen foderneiddio i Gymru.

Ailgaffael System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OFWCMS).

Mae Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMS) yn datblygu model gweithredol ar gyfer yr uned Radiofferylliaeth.

Cyflawni cynllun gwaith y cytunwyd arno ar yr Economi Sylfaenol i'r GIG yn gysylltiedig â Chaffael.

Datblygu strategaeth arbedion ac adrodd genedlaethol, leol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni gyda chyflawniad parhaus.

Dechrau paratoi Tendr Gwasanaeth Rheoledig System Rheoli Ariannol (FMS) GIG Cymru.

Cyflawni Cynllun Cyfarpar Diogelu Personol hirdymor y cytunwyd arno ar gyfer safleoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

## Ein Partneriaid

Arwain datblygiad Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl; symud o gaffael i gyfnod cynllunio a pharatoi.

Cefnogi'r Rhaglen Lleihau Asiantaethau Cenedlaethol.

Parhau i ddylunio, gweithredu, gwerthuso a dadansoddi effaith rhaglenni Diogelwch a Dysgu.

Cyflwyno rhaglenni brechu tymhorol drwy fodel cenedlaethol ar gyfer cyflwyno brechlynnau.

Cefnogi byrddau iechyd i reoli prinder meddyginiaethau a phroblemau'r gadwyn gyflenwi a lleihau dyblygu ymdrech.

Darparu arweiniad a chefnogaeth i sefydliadau'r GIG gyda chyflwyniad canllawiau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Gweithio i Wella (PTR), i'w ailenwi'n Gwrando Ar Bobl (LTP).

Cymunedol o'r Cychwyn: Parhau i ymgysylltu â'r rhaglen i benderfynu pa ddata ystâd sydd ar gael ac a allai gefnogi'r rhaglen.

# Ein Blaenoriaethau Strategol 2026-29




## Amcanion Strategol


Mae ein hamcanion strategol yn sylfaen ar gyfer ein meysydd ffocws allweddol dros y tair blynedd nesaf. Rydym wedi integreiddio'r amcanion hyn yn ein cynlluniau adrannol er mwyn sicrhau aliniad â Blaenoriaethau Gweinidogol, y rhaglen lywodraethu ehangach, ac anghenion penodol ein cwsmeriaid a'n partneriaid.

Mae'r adran hon yn archwilio rhai o'r gweithgareddau allweddol a amlinellir yn ein cynlluniau ac yn dangos sut maent yn cyfrannu at ein hamcanion a'n canlyniadau strategol. Drwy dynnu sylw at yr effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid a'n partneriaid ar draws GIG Cymru, rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth eithriadol.


Trefnwyd ein cynlluniau ar gyfer blwyddyn un yn bum thema, a phob un yn cydredeg â blaenoriaethau gweinidogol a'n hamcanion strategol. Y pum thema yw:

- Trawsnewid ac Arloesi Digidol
- Cynaliadwyedd, Datgarboneiddio a Gwydnwch
- Datblygu, Arwain a Diwylliant y Gweithlu
- Cydweithio, Llywodraethu a Phartneriaethau Strategol
- Effeithlonrwydd Gweithredol a Moderneiddio Gwasanaeth

***Allwedd:*** *Ein Themâu*




***Allwedd:*** *Amcan Strategol, Thema a Menter CTCI*



Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*

## Adolygiad Blynyddol PCGC

## 2025-2026

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech chi wybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt a nodir isod:


02921 501500

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

NHS Wales Shared Services Partnership,
4-5 Charnwood Court,
Heol Billingsley,
Parc Nantgarw,
Cardiff,
CF15 7QZ